# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 496 · Chwefror 2019 · 50c**



# Y Ddraig Dderw

I'r rhai hynny ohonom sydd wedi hen arfer â'r daith droellog sy'n nadreddu o Fryn Bella hyd Bont Hanner Ffordd fel rhan o'n cymudo dyddiol, ni ellir anwybyddu'r ffaith fod pâr o lygaid ychwanegol yn dilyn ein hynt yn ddiweddar. Pâr o lygaid, corff cyhyrog, adennydd urddasol, a dannedd miniocach na'r awel oer a'n hamgylchynna, a hyn oll yn ein gwylio'n gelfydd o noddfa gardd gyfagos. Y mae'r "Ddraig Dderw" fel y'i bedyddiwyd, wedi dod yn rhan o'n sgwrs ddyddiol, a'r wasg leol, cenedlaethol a rhyngwladol – a'r heddlu! – oll am gael tamaid - neu frigyn - o'r hanes.

Pan welodd perchennog y goedlan ar gyrion Bethesda fod derwen hynafol wedi syrthio mewn storm, penderfynodd Dr Ben Alofs ddilyn cwys ychydig yn wahanol. Ble bydda'r mwyafrif yn ein plith wedi croesawu bwndelaid iach o bren i'w losgi yn nosweithiau oer y gaeaf, trodd ef ei olygon at syniad cwbl wreiddiol, syniad na allai neb ddychmygu'r fath ymateb a fyddai'n dod i'r fersiwn arloesol hwn o ailgylchu.

Simon O'Rourke, artist o ardal Wrecsam, sy'n gweithio gyda phren ledled Cymru, sy'n gyfrifol am gerfio'r ddraig allan o'r pren a syrthiodd. Ar ôl graddio mewn dylunio, gan arbenigo mewn llyfrau plant, dechreuodd weithio gyda chwmni Acorn ArborCare – am fod angen swydd lawn amser arno! Manteisiodd ar y cyfle i arbrofi gyda phren, a gwelodd ei gyfle i fod yn greadigol gyda lli gadwyn a darn o bren. Mae sgiliau cerfio Simon bellach wedi ei anfon i bedwar ban byd – America, Siapan, Canada ac ar draws cyfandir Ewrop. Ei brif nod yw creu cerfluniau a delweddau sy'n clodfori a chyd-fynd gyda'r ardal leol, a diau fod ei brosiect diweddaraf wedi "tanio'r" dychymyg yn llythrennol.



Denodd y cerflun sylw'r wasg genedlaethol gyda sawl erthygl yn tystio i'r rhyfeddod newydd hwn yn ein hardal. Pryderodd Heddlu Gogledd Cymru am ddiogelwch wrth i deithwyr arafu i weld y cerflun yn y coed. Nodwyd fod damwain eisoes wedi bod a bod sawl un wedi bod yn anghyfrifol wrth geisio cael cipolwg ar y bwystfil. Ond, fel y dywedodd y cerflunydd ei hun, mae hysbysebion enfawr yn ein llygad-dynnu wrth deithio ar draffyrdd ein dinasoedd. Y cwestiwn mawr i ni yn Nyffryn Ogwen yw: a ddylem adael i'r Ddraig Dderw lechu yn ei man geni gwreiddiol, neu a ddylid ei symud i leoliad newydd, parhaol, ble byddai'n fwy diogel i bawb aros a'i mwynhau? Beth am anfon eich syniadau i'r Llais?

Llais Ogwan


## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Walter a Menai Williams.

Y golygydd ym mis
Mawrth fydd
Trystan Pritchard,
27 Allt Penybryn,
Bethesda, LL57 3DB.
07402 373444
E-bost: trystanrp1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn
**dydd Mercher, 27 Chwefror**
os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu
**nos Iau, 14 Mawrth**,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**Dalier sylw:** nid oes
gwarant y bydd unrhyw
ddeunydd fydd yn
cyrraedd ar ôl y dyddiad
cau yn cael ei gynnwys.


Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan *y Lolfa*



Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.


**Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:**

**Dyffryn Ogwen**
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Select Conv, Bethesda
Siop y Post, Rachub

**Bangor**
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon** Siop Richards

**Porthaethwy** Awen Menai

**Rhiwlas** Garej Beran

# Dyddiadur y Dyffryn

**Chwefror**

15 Atgofion ar Gân. Meddygfa Bethesda. 1.15 – 2.30.
16 Bore Coffi Apêl Morgan Hughes. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00.
25 Te Bach. Festri Carmel. 2.30 – 4.00.

**Mawrth**

02 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes. 10.00 – 12. 00.
02 Te Crempog. Eglwys Gelli, Tregarth, am 2.00.
04 Merched y Wawr Tregarth. Dathlu Gwyl Ddewi.
09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
09 Bore Coffi Plaid Lafur. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
11 Cymd.Hanes D. Ogwen. Cynrig Hughes. Festri Jerusalem am 7.00.
13 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
14 Cymdeithas Jerusalem. Parchg. Mererid Mair Williams. Festri am 7.00.
14 Noson Casglu Llais Ogwan, Cefnfaes am 6.45.
16 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
23 Bore Coffi Eglwys St. Cedol, Pentir. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
26 Theatr Bara Caws yn cyflwyno COSTA BYW. Neuadd Ogwen am 7.30.
27 Noson Goffi Madagascar. Festri Capel Bethlehem Talybont.
30 Radio Rhydd, band o Fethesda. Caffi Croesor, Llanfrothen. 7.30."

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

# Llety Lloerig yn Llwyddiant

Dyma drydydd panto Llechen Las yn llenwi Neuadd Ogwen. Ers Ionawr 2017 mae'r cwmni wedi cyflwyno perfformiadau hwyliog, doniol ac unigryw. Maent yn haeddu'r disgrifiadau hyn gan eu bod wedi'u hysgrifennu i ni, y cwmni, ac i chi , y gynulleidfa. Panto wedi'i leoli yn yr ardal gyda llawer o gyffyrddiadau lleol oedd yn apelio at bob oed.

'Roedd yma yr arferol bobl dda a drwg a'r "cymeriadau" hoffus a gwahanol. Tybed a fyddwch yn edrych ar Ganolfan Cefnfaes ychydig yn wahanol o hyn allan? Beth sydd wedi digwydd i Elmer, Talwla Loli Troli, Miss Marblan a'r gweddill? Ble mae Ingrid? 'Roedd yn amlwg o'r ymateb nos Wener a phnawn Sadwrn bod pawb wedi mwynhau.

Hwyl o'r mwyaf oedd cael cyflwyno'r panto gyda'r actorion, y technegwyr a phawb oedd yn helpu i'w wneud yn llwyddiant. Mae'r diolch mwyaf i Gaynor a Marian am ysgrifennu y cyfan. Llinellau gwych, doniol a chaneuon hwyliog. Er yn dasg enfawr dywedodd y ddwy eu bod wedi cael cryn hwyl wrth ei ysgrifennu. Diolch i blant Crawia am fod yn rhan o'r cast hefyd. Diolch i Beti Rhys am fod mor barod i gyfeilio. Diolch o'r mwyaf i Iwan Fôn am gynhyrchu, ac am ei amynedd!



## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415
**Neville Hughes** ☎ 600853

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £10.00 | D. W. Thomas, Barrow in Furness. |
| £8.00 | Don Hughes, Halifax. |
| £20.00 | Ann Davies, Tal y Cae, Tregarth. |
| £40.00 | D. Nicholas, Llandrillo yn Rhos. |
| £10.50 | Jean Cross, Adwy'r Nant, Bethesda. |
| £50.00 | Côr Meibion y Penrhyn. |
| £14.50 | Deri a Megan Tomos, Sychnant, Llanllechid. |
| £20.00 | Er cof annwyl am Mrs. Eirlys Roberts, Cilfodan, a fu farw 10 Chwefror 2016, oddi wrth ei phriod, Vic, a'r teulu. |

**Diolch yn fawr.**

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes**,
Rallt Uchaf, Pentir,
LL57 4YB.
☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

**Eglwys St. Cedol, Pentir**
*Clwb 100 Rhagfyr 2018*
1af: Rhif 3 – Ella Roberts Jones, Rhiwlas
2il: Rhif 40 – Nesta Barton, Rhiwen
3ydd: Rhif 30 – Mair Roberts, Rhiwlas

*Cinio Gwyl Ddewi*
Cynhelir Cinio Gŵyl Ddewi Eglwys St. Cedol yn Y Ganolfan, Glasinfryn, ddydd Sadwrn, Mawrth 2, rhwng 12y.b. a 2 y.p. Croeso cynnes i bawb.

*Bore Coffi*
Cynhelir Bore Coffi Eglwys St. Cedol yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda, ddydd Sadwrn, Mawrth 23. Croeso cynnes i bawb.
Gwasanaethau'r Sul:
24.2.19: Boreol Weddi
3.3.19: Cymun Bendigaid
10.3.19: Boreol Weddi
17.3.19: Cymun Bendigaid
24.3.19: Boreol Weddi

**A4244**
Mae Cyngor Cymuned Pentir wedi bod yn bryderus parthed y gyfres o ddamweiniau a'r gor-yrru ar hyd y ffordd uchod. Gosodwyd peiriant i gofnodi cyflymdra moduron ar y ffordd. Dangosodd y canlyniadau bod mwy na hanner y cerbydau'n gyrru'n gyflymach na'r cyfyngiad o 50 m.y.a. Felly, gall yr awdurdodau fonitro cyflymder y cerbydau ar hyd y ffordd yma yn y dyfodol.

**Mynwent Eglwys Sant Cedol**
Mae nifer o gerrig beddau diddorol ym Mynwent Eglwys Sant Cedol ac mae un enghraifft i'w gweld tu ôl i'r adeilad ac yn agos i'r mur allanol. Mae'n garreg fedd lechfaen i ferch saith oed o'r enw Jen Williams. Yr hyn sy'n nodweddiadol yw bod y garreg yn eithaf garw, wedi'i llunio, mae'n debygol, gartref gan aelod o'r teulu. Hefyd, mae cyfres o gylchoedd cerfiedig arni ac mae diniweidrwydd yn yr ysgrifen. Gweler y cofnod:

**Er Cof**
**JEN . WM . me . R . W . A . E . T . PANT . CARUN**
**YR . HON . A . FU . FARW . TACH . 22 . 1849 . YN . 7 . OED**

# Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

***Gwobrau Ionawr***

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (184) | Enid Roberts, Cae'r Wern, Tregarth. |
| £20.00 | (35) | Huw Derfel Jones, Y Wern, Gerlan. |
| £10.00 | (17) | Owen G. Jones, Erw Las, Bethesda. |
| £5.00 | (97) | Walter W. Williams, Erw Las, Bethesda. |

**(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)**

EGLWYS UNEDIG BETHESDA
LLENWI'R CWPAN
Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

# Ysgol Tregarth

**Ymweliad Blwyddyn 1 a 2**
Thema Dosbarth Llywelyn yr hanner tymor yma yw 'Archwilwyr Cymuned', felly i ffwrdd â ni am dro i RSPB, Conwy er mwyn cael dysgu mwy am adar sydd o gwmpas ein cymuned leol / cymuned eang. Cawsom ddysgu nifer o ffeithiau diddorol am yr adar, gwybod sut i ddefnyddio ysbienddrych yn gywir a hyd yn oed creu nyth ar gyfer aderyn o'n dewis. Er gwaetha'r tywydd oer cawsom ddiwrnod bendigedig, a phawb wedi mwynhau sgwrsio gyda gweithwyr RSPB, Conwy.

**Y Fainc**
Bellach mae mainc gadarn ar gael i orffwys arni wrth i chi gyrraedd Ysgol Tregarth! Diolch o galon am y rhodd ariannol hael a'n galluogodd i'w phrynu. Diolch i'r cyngor ysgol am wneud y gwaith ymchwil a'r holl drefniadau angenrheidiol. Diolch hefyd i Menter Fachwen am ddod â hi draw a'i gosod mor brydlon a di-lol.




**Archifdy Gwynedd, Caernarfon**
Cafodd disgyblion dosbarth Ffrydlas brofiad arbennig fore Mawrth, Ionawr 29ain. Gan ein bod yn gweithio ar thema Milltir Sgwar, trefnwyd i ni ymweld â'r Archifdy, ac fe'n croesawyd yn gynnes gan Mr John Dilwyn Williams a Mrs Gwenda Williams. Cawsom gyflwyniad am waith yr archifdy a'r arteffactau a gedwir yno, ynghyd â thaith o gwmpas. Braf oedd gweld brwdfrydedd y disgyblion wrth iddynt ddarllen llyfr log Ysgol Tregarth o'r cyfnod pan agorwyd hi yn 1897, a hynny yn llawysgrifen gywrain y Prifathro cyntaf, Mr Brock! Hefyd cawsom gyfle i astudio hen luniau a mapiau o'r ardal. Gwych hefyd oedd astudio ychydig ar gofnodion cyfrifiad dechrau'r ganrif ddiwethaf. Cafodd pob un brofiad newydd ac unigryw, a gwerthfawrogwyd y cyfle i gyffwrdd peth o hanes eu hardal leol.

**Ysgol Arweiniol Prosiect Shirley Clarke**
Brynhawn Iau, Ionawr 17eg, braf oedd croesawu dwsin o athrawon o amrywiol ysgolion ar draws Rhanbarth GwE i'r ysgol, ynghyd â nifer o staff GwE! Mae Ysgolion Tregarth a Bodfeurig yn ysgolion arweiniol ym mhrosiect Shirley Clarke ac felly yma y cynhaliwyd diwrnod adolygu gyda'r ysgolion o haen 2 yr ydym yn eu harwain. Cafwyd cyfle i drafod eu llwybr hwy, rhannu arfer dda a myfyrio ar arferion effeithiol. Braf oedd gweld parodrwydd pawb i rannu profiadau, ac i annog ei gilydd. Cafwyd adborth hynod gadarnhaol i'r diwrnod ac edrychwn ymlaen i'w croesawu eto yn ystod y flwyddyn.

**Y Cenhedloedd Unedig**
Y mis diwethaf adroddwyd i ni anfon llythyrau at bencadlys y Cenhedloedd Unedig yn datgan ein pryder am gynhesu byd-eang. Pleser yw cael dweud i ni dderbyn ateb yn gynnar ym mis Ionawr. Gallwch ddychmygu bod cryn gynnwrf ymysg y plant! Braf oedd darllen yr ymateb yn diolch, a nodi pa mor galonogol yw gweld y genhedlaeth ifanc yn dangos cymaint o bryder am ddyfodol ein planed. Da iawn chi blantos, daliwch ati i lythyru!

**Nofio**
Llongyfarchiadau unwaith eto i dîm nofio'r ysgol a fu'n cynrychioli Eryri yng nghystadleuaeth genedlaethol nofio'r Urdd draw yng Nghaerdydd. Daeth Shannon O'Malley, Millie Forte, Nel Owen a Ffion Marlow yn ail yn eu rhagras i ennill lle yn y rownd derfynol. 8fed oedd eu hanes yn y rownd derfynol, sy'n eu gosod yn y 10 uchaf trwy Gymru, da iawn chi! Bu Nel Owen yn cystadlu fel unigolyn hefyd gyda'r dull pili pala a broga. Llwyddodd Nel i gyrraedd y rownd derfynol gyda'r dull broga a dod yn 7fed trwy Gymru!



**Dringo**
Bu Nel Angharad Owen mewn cystadleuaeth dringo ym Merthyr Tudful yn ystod mis Ionawr – dyma ferch arall dalentog oYsgol Tregarth ym maes chwaraeon. Daeth Nel yn ôl i'r ysgol gyda'r newyddion ei bod hi wedi dod yn ail yn ei chategori wrth ddod yn erbyn cystadleuwyr o bedwar ban Cymru. Wythnos go arbennig felly i ferched yr ysgol!

# Carneddi

**Llawdriniaeth**
Bu dwy o'r ardal yn yr ysbyty yn ddiweddar a'r gyntaf i dderbyn llawdriniaeth fawr yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl, oedd Ela, merch fach Lowri a Dylan Williams o Gilfodan. Cafodd Ela lawdriniaeth fawr iawn ar phen ond mae'n dda cael cyhoeddi ei bod gartre' erbyn hyn ac yn gwella'n dda ar ôl ei salwch. Llwyddodd Ela i godi o'i gwely mewn ychydig ddyddiau wedi'r driniaeth. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.
Deallwn fod Mrs Margaret Roberts, 11 Ffordd Ffrydlas wedi derbyn triniaeth frys yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan ond mae hi gartre' bellach ac yn gwneud cynnydd da. Dymuna hi ac Emyr ddiolch i'r gwasanaethau brys ac i'r meddygon a'r nyrsus am eu gofal gwych. Pob dymuniad da gan bawb am wellhad buan Margaret.
Cofion hefyd at Marian Davies Ffordd Carneddi sydd wedi derbyn triniaeth. Mae'n siŵr bod yr hogia yn dda iawn efo hi.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Bleddyn, Angharad a'r plant, Fron, Cilfodan yn eu profedigaeth o golli nain Bleddyn sef Megan Williams, Gerlan.

**Pen-blwydd Arbennig**
Dymunwn y gorau i'r Prifardd Ieuan Wyn ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig ddiwedd fis Ionawr.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau mawr i Catrin Elin Roberts ar ennill gradd meistr mewn gwaith cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor. Mae hi bellach wedi cael swydd yn y maes gyda Chyngor Gwynedd.



# Côr y Penrhyn

## gan Derfel Roberts

**Côr y Penrhyn**
Wedi prysurdeb cyfnod y Nadolig a'r flwyddyn Newydd fynd heibio gyda'r côr yn lansio albwm newydd, dechreuwyd ar y rhaglen newydd o weithgareddau sy'n ein haros yn 2019. Bydd y rhaglen honno'n cynnwys cyngherddau mewn sawl lle gan gynnwys Llandudno, Henllys a Chlwb Golff Conwy. Yn y clwb golff byddwn yn diddori'r aelodau a'u teuluoedd yn nathliadau Gŵyl Ddewi'r clwb.

**Prifwyl Dyffryn Conwy**
Bydd y paratoi ar gyfer cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn dechrau'n fuan a bydd pob aelod yn edrych ymlaen at gael mynd yno i roi cyflwyniad chwarter awr o raglen y côr. Dwedodd Tom Williams o adran yr ail denoriaid. "Dan ni'n edrych ymlaen yn arw at Lanrwst er mwyn cael dangos i'r genedl be' allwn ni 'neud, ac mi fydda i ymhlith y cynta' i neidio ar y bws am Ddyffryn Conwy pan ddaw'r amser."



**Tom Williams, aelod blaenllaw o'r ail denoriaid.**

Un arall yn llawn eiddgarwch am y gystadleuaeth yw Henryd Jones o Gaernarfon, ac meddai, " Mi fydda i'n cael gwefr wrth gyd-ganu gyda hogia'r côr ac mae cael dysgu darnau'n drwyadl mewn cyfres hir o ymarferion yn rhywbeth y bydda i'n edrych ymlaen yn fawr amdano."


Apeliodd yr arweinydd, Owain Arwel, am ffyddlondeb i'r ymarferion ac am barodrwydd i weithio'n galed gan roi amser gartref i ddysgu geiriau a nodau." Bydd pob aelod yn cael cyfle i wrando ar eu nodau ar wefan y côr," meddai, gan ychwanegu, "oherwydd gyda'r darnau a ddewiswn, mi fydda i wedi paratoi tâp ar gyfer pob llais a disgwylir y bydd yr aelodau'n ymgyfarwyddo â'u nodau cyn dod i'r ymarferion."



**Owain Arwel Davies, Arweinydd Côr y Penrhyn**

**Perfformio ar sioe Alan Titchmarsh**
Yn ddiweddar derbyniodd y côr wahoddiad i gymryd rhan mewn rhaglen deledu fydd yn cael ei darlledu ar "Channel 5" cyn bo hir. Enw'r gyfres ydy, "The Secrets of the National Trust" gyda'r cyflwynydd enwog Alan Titchmarsh. Yn ystod y gyfres bydd rhaglenni am wahanol adeiladau sydd dan ofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cael eu dangos ynghyd â'r cyfrinachau sy ynddynt.

Y darlledwr Alan Titchmarsh Bydd dau adeilad yng Ngogledd Cymru dan sylw, sef Plas Newydd ym Môn, ac wrth gwrs, Castell Penrhyn. Gwahoddwyd y côr i ganu yn neuadd fawr y castell a 'r gân a ddewiswyd i'w chanu oedd yr emyn dôn "Pembroke" gyda'r geiriau "Dwi'n gweld o bell y dydd yn dod." i goffáu'r chwarelwyr a gerddodd o'r chwarel i lawr i Fangor yn ystod y Streic Fawr ym mis Hydref 1903.




Cyn canu, cafodd aelod o'r adran fariton, Alun Davies, ei holi gan Alan Titchmarsh am arwyddocâd yr emyn, a'r rhan 'roedd corau yn eu chwarae ym mywyd y chwarelwyr. Gofynnwyd iddo hefyd beth oedd teimladau aelodau'r côr presennol am ganu y tu mewn i hen gartref yr Arglwydd Penrhyn.

**Dau gyngerdd pwysig**
Mae gan y côr ddau gyngerdd mawr ym mis Mawrth, sef ar yr 8fed yng Nghadeirlan Bangor gyda Only Boys Aloud, Tant ac Elin Fflur. Cyngerdd er budd y Ganolfan Gefnogaeth i rai sy'n dioddef Trais a Cham-drin Rhywiol yw hwnnw ac mae tocynnau yn £15.00 i oedolion a £10.00 i blant.

Yna, ar Fawrth 30 yng Nghapel Jerusalem, Bethesda byddwn yn cynnal cyngerdd gyda Chôr Meibion Bro Taf o ardal Caerdydd. Bydd tocynnau i'r cyngerdd hwnnw yn costio £6.00 a gellir eu cael gan aelodau Côr y Penrhyn.

26, Pen y Ffridd,
Penrhosgarnedd,
Bangor,
Gwynedd
LL57 2LZ

30.1.19

Annwyl Ddarllenwyr
Llais Ogwan,

Mae ffynhonnau sanctaidd i'w canfod ledled Cymru, a tydi Dyffryn Ogwen ddim yn eithriad. Cofnodwyd fod o leiaf un yma, sef Ffynnon Llechid yn Llanllechid.

'Does yna ddim dirgelwch mawr ynghylch ymhle mae'r ffynnon, sef rhywle yn ymyl Cae'r Ffynnon, i'r gogledd-ddwyrain o Blas Uchaf; ond ymhle'n union?

Un hanes yw bod y ffynnon wedi'i gorchuddio a'i throi'n gyflenwad dŵr preifat. Os felly, efallai bod modd gweld lle mae hi. Pobl Llanllechid ŵyr orau am hyn, felly byddwn ddiolchgar iawn am unrhyw wybodaeth ynghylch y ffynnon, inni fedru diogelu'r rhan hon o'n treftadaeth ni. Pob croeso i chi gysylltu efo fi ar **07870 797655** neu **cyfarchiad@yahoo.co.uk**.

Yn gywir iawn,
Howard Huws
Ysgrifennydd Cymdeithas Ffynhonnau Cymru

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwyr lleol

## Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

# gair neu ddau

John Pritchard

# Mis Bach

Fûm i erioed yn Sweden. Ac yn sicr, doeddwn i ddim yno yn y flwyddyn 1712. Ac felly, chefais i mo'r fraint o rannu â phobl Sweden y dyddiad unigryw a gafodd eu gwlad y flwyddyn honno. Oherwydd mae'n debyg na welwyd y dyddiad 'Chwefror 30ain' ar galendr swyddogol yr un wlad arall erioed. Cymhlethdod y drefn o fabwysiadu Calendr Gregori yn lle'r Calendr Iwliaidd yn Sweden a barodd i'r dyddiad hwn gael ei ychwanegu at galendr y wlad am un flwyddyn yn unig yn 1712. Ond os cafodd pobl Sweden ddiwrnod ychwanegol yn 1712 roedd llawer ohonynt yn credu iddynt golli un diwrnod ar ddeg yn 1753 pan gwblhawyd y trosglwyddo o'r Calendr Iwliaidd i Galendr Gregori ac y dilynwyd Chwefror 17eg gan Fawrth 1af! Doedd y 'colli' hwnnw ddim yn unigryw i Sweden, gan fod hepgor ac ychwanegu dyddiadau yn beth digon cyffredin, ac yn wir yn anorfod, wrth i bobl fabwysiadu calendr gwahanol. Ond y mae 'Chwefror 30ain' yn ddyddiad y gall pobl Sweden ymffrostio ynddo a'i hawlio yn ddyddiad unigryw iddyn nhw.

Welwn ni felly mo'r degfed ar hugain o fis Chwefror. Dim ond bob pedair blynedd y gwelwn ni'r nawfed ar hugain. Oherwydd y 'mis bach' yw Chwefror i ni. Ac y mae pob un o'i ddyddiau'n unigryw. Does gan bobl Sweden ddim monopoli ar bethau felly; oherwydd beth bynnag a ddywed y calendr, y mae pob dydd yn unigryw. Mae pob dydd yn newydd; pob dydd yn dod â'i brofiadau ei hun; pob dydd yn dod â'i fendithion ei hun; pob dydd yn dod â'i gyfleoedd newydd i fwynhau a gwerthfawrogi'r cyfan a dderbyniwn.

I'r Cristion, mae pob dydd yn gyfle newydd i ddiolch i Dduw am ei ddaioni a'i gariad; pob dydd yn gyfle newydd i dderbyn gras a chymorth i fyw yn ufudd i'w orchmynion er mwyn dod, trwy ras, yn debycach i'r Arglwydd Iesu Grist. Ydi, y mae pob dydd yn unigryw. Chawson ni mo'r un dydd o'r blaen, a welwn ni mo'r un dydd eto; heddiw ydi heddiw, a phob heddiw yn rhodd gan Dduw i'w fyw a'i werthfawrogi i'r eithaf.

Buan iawn y bydd y mis bach hwn wedi mynd heibio, fel pob mis arall. Duw roddo ras i ni ddefnyddio pob munud ohono mewn ffordd a fydd nid yn unig yn lles i ni ac i eraill ond hefyd yn glod i'w Enw Ef ei hun.

**Eglwys Y Santes Fair**
Gwasanaethau:
Chwefror 17: Boreol Weddi
Chwefror 24: Cymun Bendigaid
Mawrth 3: Boreol Weddi
Mawrth 10: Cymun Bendigaid
Mawrth 17: Boreol Weddi
Mawrth 24: Cymun Bendigaid
Pob gwasanaeth am 9.30 y bore.
Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar David Jones, 49, Bro Syr Ifor – bydd colled ar ei ôl yn yr Eglwys. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys y Gelli, o dan arweiniad y Parchedig J Matthews.
Oherwydd amgylchiadau arbennig, 'rydym yn cynnal y Te Crempog ddydd Sadwrn, Mawrth 2, am 2 o'r gloch y prynhawn. Yn ystod y Garawys, cynhelir cinio Garawys ar Fawrth 21 a 28, Ebrill 4 ac 11, am hanner dydd.

Ym mis Mehefin, bydd yr Eglwys yn dathlu 150 mlynedd, ac fel rhan o hynny 'rydym am gynnal arddangosfa o hen luniau. Felly, os oes gan rywun luniau a fyddai'n addas i'w cynnwys, cysylltwch â Rosemary:

19, Ffordd Tanrhiw, Tregarth. Ffon: 01248 600412.

**Profedigaeth**
Ar Ionawr 6 yn Hosbis Dewi Sant, Llandudno bu farw David John Jones, o 49 Bro Syr Ifor, gŵr y diweddar Muriel a thad, taid, hen daid a brawd annwyl iawn. Bu ei angladd yn Eglwys y Gelli ar Ionawr 14 a chydymdeimlwn gyda'i deulu.

Cydymdeimlwn gyda theulu Marjorie Kimpton , 4 Maes y Garnedd, Bethesda, ond gynt o Fro Syr Ifor, Tregarth. Bu farw Marjorie ar Ionawr 8. Roedd yn wraig i'r diweddar Ronald, yn fam i Martin, Mark a Simon ac yn nain i Georgia, Owen, Ioan, Toby, Ben, Robert, Denise ac Alex.

Cydymdeimlwn â Gerallt, Angharad, Bleddyn a Gethin, Ffordd Tanrhiw a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain o'r Gerlan , sef Mrs Maggie Elinor Williams (Megan).

Brawychwyd yr ardal pan ddaeth y newyddion am farwolaeth sydyn Manon Wynne Pritchard, 4 Godre'r Parc, Sling ar Ionawr 24 yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Merch o'r Gerlan oedd Manon ond wedi priodi Alun o Llety, Tregarth, yn fam i Emily ac Ela ac yn chwaer i Martin. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd.

Gyda thristwch hefyd y clywsom am farwolaeth Mrs Myfanwy Morris, Bryn Awelon, Dob, Tregarth, (Myfanwy Pant yr Ardd gynt) - gweddw Hefin, mam Steve, Dafydd a Siân, a nain a hen nain gariadus. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf atoch fel teulu.

**Capel Shiloh, Tregarth**
Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Chwefror 17: Glyn Owen, Llanwnda
Chwefror 24: Eric Jones, Bangor
Mawrth 3: Richard Gillion (Sacrament)
Mawrth 10: Idris Thomas, Dinorwig
Mawrth 17: Philip Barnett, Swydd Efrog
Mawrth 24: Jennie Hurd

**Drws Agored**
Croeso i unrhyw un droi i mewn i Festri Capel Shiloh bob bore Gwener rhwng 10 o'r gloch a 12 o'r gloch am baned, sgwrs a chwmni !

Cydymdeimlwn gyda theulu y diweddar Margaret Owen, Llanllechid , fu farw ar ddechrau mis Ionawr. Byddai Margaret yn ymuno gyda'r gynulleidfa yn Shiloh bob mis ar gyfer y Sacrament a byddai croeso mawr iddi ar bob achlysur. Bydd bwlch ar ei hôl yma yn Shiloh.

Gwellhad llwyr a buan i un o'n haelodau, sef Valmai Owen, Bethesda, sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar ac wedi dathlu pen-blwydd arbennig ar ddiwedd mis Ionawr. Llongyfarchiadau Valmai!

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yn ein cartref yma yn Festri Shiloh , Nos Lun, Mawrth 4, am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i'r holl aelodau ac aelodau Newydd.

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw ar ddathlu ei ben-blwydd yn 70 oed. Cafwyd cyfle i ddathlu'r achlysur gyda'r teulu a ffrindiau yn Y Llechen, Talybont.

**Clwb Cant Canolfan Tregarth**
Mis Ionawr:
31: Cynthia Roberts
39: Anna Jones
35: Tudor Jones

# Caerhun a Glasinfryn

**Cylch Glasinfryn**

Daethom at ein gilydd bnawn Mercher 9 Ionawr i fwynhau cwmni Jill Turner. Wel dyna i chwi bnawn neu sesiwn gwahanol ! Ei thestun oedd "Iechyd a'r Celfyddydau" a Qigong (rhywbeth tebyg i Tai Chi ). Bu'n trafod pum pwynt sy'n bwysig i'n cadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol, - 'rwyn siwr y byddai gan rai o ddarllenwyr y Llais ddiddordeb i ddarllen amdanynt !

Pwynt 1 – Cadw mewn cysylltiad â phobol, teulu, cyfeillion a chymdogion unai yn y cartref, yr ysgol, eich gwaith neu yn y gymdeithas. Mae angen cysylltiad a chefnogaeth gan bawb.

Pwynt 2 – Byddwch yn fywiog a phrysur ! Cadwch eich hun yn heini drwy gerdded, garddio, dawnsio, ymarfer corf a.y.y.b.

Pwynt 3 – Sylwi. Byddwch yn ymwybodol o'r pethau o'ch cwmpas .

Pwynt 4 – Dal i ddysgu a chymryd diddordeb, efallai ar drywydd newydd gwahanol. Mae dysgu rhywbeth newydd yn gallu rhoi hyder a hwyl i chwi

Pwynt 5 – Rhoi. Byddwch yn gymwynasgar ac yn ffrind da. Diolchwch i bobl a byddwch yn glên. Rhowch wên ar eich wyneb ac ymunwch â grŵp yn eich cymuned. Cynigiwch fod yn wirfoddolwr.

Bydd hyn i gyd yn llês i'ch iechyd a'ch meddwl.

I brofi pwynt 5, cawsom hanner awr o weithgaredd gyda'n gilydd i weithio mewn grŵp i wneud "Coeden Flodeuog". Defnyddio brigau, potiau garddio bach, papur sidan gwawriau pinc a gwyn, raffia a phapur gloyw, papur newydd a cherrig mân.

Wel dyna i chwi hwyl! Bu distawrwydd ! Pawb am y gorau i ganolbwyntio ar y dasg a choed bach bendigedig lliwgar wedi'u creu. Syniad Sieinead yw hyn i ddathlu'r flwyddyn newydd - "Diwrnod Blodeuog". Oedd, 'roedd gweithio mewn grŵp yn llês i'r meddwl a'r 5 pwynt yn werth eu cadw mewn côf.

Wedi'r banad gan Mair a Glenys cawsom 15 munud o Qigong i dawelu'r meddwl a'r corff !

Diolchwyd i Jill gan Ann Illsley am bnawn difyr dros ben.

**Bingo**

Cynhelir Noson Bingo yn y Ganolfan ar 1 Mawrth am 7yh, gyda'r elw yn mynd i'r Ganolfan Datblygu Plant ym Mangor Uchaf. Mae Lily, o Gaerhun, sydd yn wyres i Carol sydd yn galw yn y Bingo, yn dioddef o Barlys yr Ymennydd ac yn mynychu'r Ganolfan. Os hoffech gyfrannu at y noson, byddai Ann, Bro Infryn, Carol yn Caerhun a Mair yn Waen Wen yn ddiolchgar iawn o wobrau tuag at y Raffl, gwobrau Bingo a Thombola. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i noson o gymdeithasu a hwyl!

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Carole a Bob Singleton, Yr Efail, Caerhun ar ddathlu eu Priodas Aur ar 1 Chwefror.

**Diolch**

Dymuna Mair a Jane ddiolch yn fawr iawn am bob cyfraniad er cof am eu mam, Muriel Pritchard, Waen Wen, a fu farw ym mis Tachwedd. Derbyniwyd £630, fydd yn cael ei rannu rhwng Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru a Chyfeillion Ysbyty Gwynedd.

Cefnogaeth dydd ar gyfer unigolion sydd yn byw efo dementia cyfnod cynnar i ganolig. Ceir y gwasanaeth hwn ei gynnal yng nghartref galluogwyr y Cynllun am dal. Derbynnir ceisiadau trwy wasanaethau Oedolion, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Gwynedd a Môn. Rydym yn chwilio am alluogwyr newydd i ddarparu y gwasnaeth yma.

Galwch Draw

Cysylltwch â Medi Griffiths am fwy o wybodaeth.

Cyfeiriad: Cynllun Cysylltu Bywydau, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob , Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA

Ffôn: 01758 704144

Lleoli.oedolion@gwynedd.llyw.cymru

Cyngor Gwynedd Council

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

Sefydlwyd 1969

m.hughes a'i fab

CONTRACTWYR TOI

Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*




C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu




Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

# Hanes un o fechgyn Tregarth

## Gan Andre Lomozik

Ddechrau Tachwedd y llynedd cysylltodd Siân Turner, Mynydd Llandegai, â mi ynglŷn â'r erthyglau bach yr oeddwn wedi'u rhoi yn y Llais dros y pedair blynedd diwethaf o dan y pennawd 'Collwyd yn y Rhyfel Mawr 1914 – 18'. 'Roedd Siân wedi sylwi nad oeddwn wedi coffau y bechgyn a laddwyd o ardal Tregarth a Mynydd Llandegai, ac sydd wedi'u henwi ar y gofeb o boptu i'r fynedfa i Eglwys Y Gelli Tregarth. Eglurais wrthi mai dim ond y bechgyn a enwir ar y gofeb ym Methesda yr oeddwn wedi canolbwyntio arnynt yn fy ymchwil, ond efallai y bod modd i wneud rhywbeth am y bechgyn o'r ochr draw i'r afon Ogwen yn y dyfodol. Daeth Siân yn ôl ataf gyda hanes un o fechgyn Tregarth a fu farw yn y Rhyfel Mawr 1914 – 18, sef R. P. Jones, Rhif 15228, Byddin Frenhinol Y Ffiwsilwyr Cymreig. Roedd Siân yn gyfeillgar â Gwladys Jones, 2 Tŷ'n Clawdd, Tregarth, sef nith Richard, ond bu ef farw cyn genedigaeth Gwladys. Felly ni soniwyd fawr amdano gan Gwladys wrth Siân, ond ar ôl marwolaeth Gwladys daeth Siân ar draws rhai o lythyrau a dogfennau yr oedd teulu Gwladys wedi eu gwarchod ar ôl i Richard gael ei ladd yn y rhyfel.

Maent yn cynnwys llythyr a ysgrifennodd Richard adref i'w fam o Bournemouth pan oedd ar ei ffordd i'r safle milwrol, ffurflen byddin, ffurflen ysbyty, cerdyn post a llythyr cydnabyddiaeth ar ôl ei farwolaeth gan Balas Buckingham. Yn ei lythyr adref, wedi'i ysgrifennu yn Saesneg, mae'n dweud wrth ei fam ei fod yn edifarhau nad oedd wedi mynd a digon o fwyd gydag ef ar y daith, oherwydd nad oedd y trên wedi aros yng Nghaer, Crewe, Stafford a Rugby ar ei ffordd i Euston a Waterloo. Arhoswyd yno am awr cyn mynd ymlaen am Bournemouth, ac nid oedd wedi mentro allan o'r orsaf. Mae hyn yn ddealladwy mae'n siŵr, gan mai bachgen ifanc iawn oedd Richard, ac mae'n ddigon posibl nad oedd wedi gweld lle mor brysur erioed o'r blaen. 'Roedd yn hanner awr wedi saith pan gyrhaeddodd ben ei daith. Ar ôl cael swper da aeth yn syth i'w wely. 'Roedd yn dweud, hefyd, na chai arwyddo'r ffurflenni milwrol yno am rai dyddiau gan fod y swyddog ar "leave".


Dyma lun yr oedd Gwladys wedi'i gadw yn dangos criw o fechgyn yn eistedd ar blatfform stesion, gyda'r gair 'wounded' wedi'i ysgrifennu o dan un ohonynt. Mae'n



eithaf tebyg mai llun o Richard P. Jones, yn ei lifrau milwrol yw hwn. Bu farw Richard P. Jones ar ddydd Sadwrn 13/5/1916 yn 20 mlwydd oed, mab Price ac Elizabeth Ellen Jones. Fe'i claddwyd ym MYNWENT FILWROL ETAPLES, FFRAINC. Dyma'r manylion sydd ar ei garreg fedd:-

Private Jones R. P. Service No. 15228 RWF 13/5/1916 "Eu henwau'n perarogli sydd, a'u hun, mor dawel yw"

Derbyniodd ei deulu lythyr oddi wrth y fyddin, dyddiedig 14/3/1916, yn eu hysbysu bod Richard wedi'i glwyfo ac mewn ysbyty yn Ffrainc, ac yna llythyr arall yn eu hysbysu o'i farwolaeth.



Army Form B. 104-80A.

Record Office,

14 MAR 1916 Station,

Sir,

I regret to have to inform you that a report has this day been received from the War Office to the effect that (No.) 15228 (Rank) Pte (Name) R. P. Jones (Regiment) ROYAL WELSH FUSILIERS was at ...

Any further information received in this office as to his condition or progress will be at once notified to you.

I am,
Sir,
Your obedient Servant,
Colonel
Officer in charge of Records.



Derbyniodd y teulu lythyr o'r archifdy yn yr Amwythig, dyddiedig 5ed o Fedi 1920, yn amgáu medal gwasanaeth a fyddai Richard wedi ei dderbyn petai wedi byw, gyda'r manylion hyn wedi'u ysgythru arni:- " R. P. Jones. R. W. Fus. 15226", a llythyr o Balas Buckingham wedi'i arwyddo gan y Brenin, yn gwerthfawrogi aberth Richard dros ei wlad.

Yng Nghyfrifiad 1911 mae Richard yn cael ei nodi fel un o bump o blant i Price ac Elizabeth Ellen Jones. 'Roedd y tad yn gweithio yn y chwarel, ynghyd â William, y mab hynaf, a Richard yn brentis yno hefyd.'Roedd Maggie, a Thomas, yn yr ysgol a John y mab ieuengaf adref.

Dyma'r man lle y gorwedd Richard P Jones.



MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

## Ysgol Dyffryn Ogwen

**Cynhadledd Llysgenhadon Uwchradd Comisiynydd Plant Cymru**
Ar ddydd Llun yr wythfed ar hugain o Ionawr teithiodd Llysgenhadon Hawliau Plant yr ysgol i Brifysgol Glyndŵr, Wrecsam, ar gyfer Cynhadledd Llysgenhadon Uwchradd Comisiynydd Plant Cymru.

Yn ystod y diwrnod cawsom gyfle i ddysgu mwy am waith diweddaraf Sally Holland, sydd yn ein cynrychioli fel Comisiynydd Plant Cymru. 'Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i ni i gydweithio gyda llysgenhadon o ysgolion eraill ar draws Gogledd Cymru er mwyn rhannu syniadau am sut y gallwn godi ymwybyddiaeth am hawliau plant a gwaith y Comisiynydd. Yn ogystal dysgasom fwy am ein rôl fel llysgenhadon wrth geisio taclo seibrfwlio. Gadawsom gyda nifer o syniadau newydd a dulliau o ddatblygu ein rôl fel Llysgenhadon.

Hoffem ddiolch i Mrs Mitchelmore ac i Sally Holland a'i thîm am drefnu.



*Nel Roberts, Cadi Roberts, Esme Crowe a Betsan Griffiths gyda Sally Holland*

**Cyflwyniad 'Pass Plus Cymru'**
Dydd Llun yr unfed ar hugain o Ionawr cafodd y chweched dosbarth gyflwyniad gan 'Pass Plus Cymru' – cynllun ar gyfer pobl ifanc 17 – 25 mlwydd oed i ddarganfod mwy o dechnegau, awgrymiadau a syniadau gyrru ar ôl pasio eu prawf. Llwyddodd y cyflwyniad i bwysleisio a rhybuddio'r disgyblion o beryglon goryrru, ac yfed a gyrru, i ni'r gyrwyr ac i bobl eraill o'n cwmpas ar y ffyrdd. Pwrpas y cyflwyniad oedd i'n hannog i fanteisio ar y cyfle i fynychu'r cynllun 'Pass Plus Cymru' er mwyn i ni ddod yn yrwyr gwell a mwy diogel. Defnyddiwyd clipiau fideo, a sbectol rhithwir i geisio rhoi darlun i ni o brofiad ac erchyllterau damwain car er mwyn i ni sylweddoli difrifoldeb y damweiniau hyn, a sut y caiff effaith ar eraill yn ogystal â'r unigolion a anafwyd yn y ddamwain.

**Traws gwlad**
Bu nifer o berfformiadau da ym mhencampwriaeth traws gwlad ysgolion Arfon gyda thri o'r disgyblion yn mynd ymlaen i gynrychioli Arfon ym mhencampwriaethau Eryri:

Madeline Sinfield yn gorffen yn 1af yn ras genethod blwyddyn 7.
Gethin Jones yn gorffen yn 5ed yn ras bechgyn blwyddyn 8 a 9.
Boe Celyn Jones yn gorffen yn 2ail yn ras genethod blwyddyn 10 a 11.
Llongyfarchiadau i bawb!

**Athletau dan do Gwynedd**
Cafwyd perfformiadau gwych gan yr athletwyr, gyda thimau bechgyn dan 15, genethod dan 15 a genethod dan 13 yn gorffen yn 1af yn y gystadleuaeth, a thîm bechgyn dan 13 yn gorffen yn 2il. Enillodd Ela Oliver wobr yr athletwraig orau genethod dan 15 gyda Sophie Jeffreys yn gorffen yn 3ydd, ac enillodd Huw Davies wobr yr athletwr gorau bechgyn dan 15 gyda Jack Hipkiss Hughes yn gorffen yn 2il.

**Ymweliad Blwyddyn 13**
Bu Dylan Robertson, Owen Roberts a Josh Hughes ar ymweliad addysgiadol â chwmni AIRBUS yn ddiweddar. Mae'r tri disgybl yn dilyn cwrs Dylunio a Thechnoleg lefel A.



*Dylan Robertson, Owen Roberts a Josh Hughes*






## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards,** Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

Drwg iawn oedd gennym ddeall bod ein gohebydd Mrs Iona Jones wedi cael llawdriniaeth egr yn ddiweddar. Anfon ein cofion cywiraf ati, gan ddymuno adferiad buan iddi. [Gol.]

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai Blodau'r Nadolig**
Cyn y Nadolig trefnwyd prynhawn hyfryd o arddangos a threfnu blodau'n effeithiol gan Mrs Barbara Murcutt (gynt o Barbara's Flowers, Bangor). Llwyddodd i greu addurniadau Nadoligaidd hardd mewn byr amser, gan gynnwys un mawr lliwgar ar gyfer noson Naw Llith a Charol yr Eglwys. Cafwyd prynhawn difyr a diddorol. Trefnwyd y lluniaeth ysgafn gan Mrs Mair Leverett a'r teulu, Yr Anchorage. Diolch i'r ddwy am drosglwyddo rhan o elw'r prynhawn i Gronfa Atgyweirio'r Eglwys. Braf oedd gweld cymaint o bentrefwyr a chefnogwyr yn y cyfarfod.
Dymunwn bob lwc i Barbara ar gyfer ei llawdriniaeth yn yr ysbyty.

**Raffl Santes Dwynwen a Bingo'r Eglwys - Nos Iau Ionawr 31**
Yn anffodus, oherwydd y tywydd garw, ni chynaliwyd y Bingo, ac felly tynnwyd tocyn buddugol y raffl Santes Dwynwen yn yr Eglwys ar fore Sul Chwefror y 3ydd – ychwanegiad annisgwyl i'r Offeren! Enw'r enillydd, sydd yn ennill potel o siampên, yw Joyce Tocker, a chodwyd £217 tuag at Gronfa Atgyweirio'r Eglwys - diolch i bawb a gyfrannodd. Ymddiheurwn i bawb a oedd wedi edrych ymlaen yn eiddgar am y Bingo, sydd bob amser yn achlysur hwyliog. Bwriedir cynnal Gyrfa Chwilen neu Bingo ym mis Ebrill, felly edrychwch allan am fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Llais, ac ym mhamffled yr Eglwys.

**Gwasanaethau Sant Tegai**
Pob bore Mercher yn Sant Tegai am 9.15 y.b. Boreol Weddi a'r Offeren yn dilyn am 10.15 y.b. Os ydych yn brin o amser – ymunwch â ni am un ohonynt – mae yna amser rhwng y ddau wasanaeth i ymadael.
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

# *Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?*




2019
Mawrth
16 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen
23 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Ebrill
06 Cefnfaes – Neuadd Talgai
13 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
27 Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem

Mai
11 Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.
18 Cefnfaes – Gorffwysfan

Mehefin
01 Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
15 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
22 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
29 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

Medi
21 Cefnfaes – Eglwys Sant Tegai, Llandygai.
28 Cefnfaes – Plaid Cymru.
19 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

Hydref
26 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Tachwedd
23 Cefnfaes – Neuadd Talgai.
30 Cefnfaes – Plaid Lafur.

**Pwysig**
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

CANOLFAN CEFNFAES

## GYRFA CHWIST

ICHWEFROR 26
MAWRTH 12 a 26
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Darlith Goffa Rhiannon Rowlands**

**Nos Lun, 11 Mawrth am 7.00 yh**

**yn Festri Capel Jerusalem**
**Cynrig Hughes**
**" Plas Pentir"**
**£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau**

Carmel Llanllechid

## Te Bach

yn y festri

**Pnawn Llun, 25 Chwefror**
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

## EGLWYS GELLI, TREGARTH YN DATHLU 150 MLYNEDD

### APÊL AM LUNIAU

Bydd Eglwys Gelli yn dathlu 150 o flynyddoedd ym mis Mehefin Os oes gan rhywun luniau a fuasai o ddiddordeb (e.e. priodasau, bedydd, digwyddiadau a.y.y.b) byddem yn ddiolchgar iawn pe caem eu benthyg ar gyfer eu cynnwys mewn arddangosfa.

**Cysylltwch â Rosemary,**
**19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth.**
**Ffôn : 01248 600412**

## Cymdeithas Jerusalem

Nos Iau, 14 Mawrth
am 7.00yh
yn Festri Jerusalem
**Noson yng nghwmni'r**
**Parchg Mererid Mair Williams**

CAFFI COED Y BRENIN

## BORE COFFI

DYDD SADWRN, 16 CHWEFROR
10.00 - 12.00
Elw at Apêl Morgan Hughes, Tregarth

CANOLFAN CEFNFAES

## BORE COFFI PLAID CYMRU

SADWRN, 2 MAWRTH
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

## BORE COFFI PLAID LAFUR

SADWRN, 9 MAWRTH
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

## BORE COFFI EGLWYS CRIST GLANOGWEN

SADWRN, 16 MAWRTH
10.00 – 12.00

## Marchnad Ogwen

**Mawrth 9fed**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Ebrill 13eg**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Mai 11eg**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**Facebook**

# Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Croeso Cynnes i Bawb
Lleoliad: Canolfan Cefnfaes, Bethesda
7.15pm - 9.30pm

**RHAGLEN CHWEFROR - MAI 2019**
**Chwefror 6 -**'Image Critique & Enhancement' gyda Sian Davies LRPS
**Chwefror 20 -** Tynnu portreadau gyda John Roberts, Caernarfon
**Mawrth 6 -** Noson efo Clwb Camera Caernarfon
**Mawrth 20 -**Cystadleuaeth: 'Môr ac Arfordir'
**Ebrill 3 -**'The Dragons Journey' gyda Margaret Salisbury FRPS
**Ebrill 17 -** 'In Search of Wild Dogs' gydag Alun Williams, Llanelwy (lluniau bywyd gwyllt)
**Mai 1 -** Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol

Gweler wefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau: *www.dyffrynogwencamera.co.uk*


RADIO RHYDD

(Band o Fethesda)
yn chwarae yng Nghaffi Croesor, Croesor , Llanfrothen

**30 Mawrth 2019 am 19.30**
Tocynnau: £7 ar y drws.



SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)

partneriaeth@ogwen.org
**01248 208 485**


## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**O gofnodion Cyngor Cymuned Llanddeinolen**
Cynllunio
Rhiwlas: Gwaith Trin Carthion,Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer datblygiad arfaethedig o fewn safle gwaith trin dŵr aflan.
Capel Peniel, Waun Pentir: addasu'r cyn-gapel yn annedd breswyl.
O gwmpas y bwrdd: man ail gylchu
Rhiwlas: Ymddengys bod y fan sydd wedi bod ar y ffordd ger Beran am rai wythnosau wedi cyrraedd y cyn-safle ail gylchu yn Rhiwlas. Angen cysylltu ag adran amgylcheddol Cyngor Gwynedd i drefnu i roi arwydd "Dim Aros Dros Nos". (Mae'r fan wedi gadael bellach ond angen yr arwydd yn sicr.)

**Llongyfarchiadau**
Braf oedd darllen am lwyddiant Osian, Bron y Waun, - cafodd wobr yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen am ysgrifennu rhyddiaith. Da iawn ti Osian a dalier ati!

**Merched y Wawr**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Ionawr yn y pnawn a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. Derbynwyd ymddiheuriadau oddi wrth Carys, Helen, Annes a Carol. Bu dwy o'n haelodau yn yr ysbyty, sef Jini ac Elina ac anfonwyd ein cofion atynt, gan ddymuno gwellhad buan i'r ddwy. Croesawyd Freda Jones Williams, Swyddog Datblygu'r Mudiad, atom. Darllenwyd llythyr gan Elfyn Jones-Roberts ar ran Pwyllgor Diffib Rhiwlas yn diolch i'r aelodau am helpu yn ystod cyngerdd Steve Eaves i godi arian.

Brethyn Cartref oedd gennym a gofynnwyd i'r aelodau i ddod â rhywbeth diddorol yn eu meddiant a siarad am y gwrthrych hwnnw. Cafwyd amrywiaeth o bethau diddorol. Roedd llyfrau'n boblogaidd iawn, - gan Gwen roedd llyfr am ei thaid a ysgrifennwyd gan ei brawd. Beibl oedd gan Rhiannon, un a gyflwynwyd iddi pan yn frenhines y carnifal yn y 50au. Llyfr am yr arlunydd Meirion Roberts oedd gan Olwen, a hefyd darllenodd gerdd i ddiolch am gelfyddyd gan Rhys Nicholas. Gan Linda 'roedd y Llyfr Pigau'r Sêr gan John Griffith Williams, sy'n disgrifio ei blentyndod yn Llŷn ac Eifionydd. Roedd Linda'n cydweithio gydag ef yn Ysgol Glan y Môr ym Mhwllheli. Llyfr a gyflwynwyd i'w hewythr, y diweddar John Williams, Carfan, gynt Y Ddolen ydoedd, - y Chweched Llyfr Anrheg o gyfres Cofion Cymru. Diddorol oedd gweld fod y llyfr wedi'i gyflwyno iddo fel John Williams RAF, Eglwys A. Peniel Waun Pentir. A beth am yr eitemau eraill?

Ym meddiant Olwen y mae cwpan â'r dyddiad 1877 arni, un a gyflwynwyd i berthynas iddi a fu'n gweini, mae'n debyg, i deulu Mostyn, tir feddianwyr yn ardal y Fflint. Gan Jean 'roedd oriawr hynod o dlws a gafodd ei thad yng nghyfraith gan filwr yn ystod y Rhyfel Mawr. Yn ogystal 'roedd ganddi deligram a afonwyd i ddweud am y cadoediad. Roedd Linda hefyd yn berchen ar anrhegion a gafodd gan John Griffith Williams pan anwyd Catrin a Gwyn, dwy enghraifft o waith coed arbennig o gywrain. Sôn am ei thaid a wnaeth Mari, - bu ef yn y Llynges ac 'roedd wedi creu crefftau gyda siel wag. Gan Jennifer 'roedd blwch cerdd anghyffredin, - un ar ffurf teledu ac mae hwn yn ei helpu pan fydd yn cwiltio. 'Roedd gan Dilys addurn a darn o'i gwallt ynddo ers pan oedd yn ifanc iawn. Cawsom amrywiaeth dda yn y cyfarfod a diolch i bawb am ddod â phethau mor ddiddorol.

Mari a Jennifer oedd yn gofalu am y baned ac 'roedd arogl coffi yn llenwi'r lle - diolch i chi!

**Pen-blwydd arbennig**
Yn ddiweddar dathlodd Myra Jones, Bron y Waun, ei phen-blwydd yn 90. 'Roedd Linda a Glenda wedi trefnu parti yn hollol ddiarwybod iddi ac 'roedd wedi mwynhau'r achlysur yn arw. 'Rydym yn siwr i chi gael hwyl ar y dathlu Myra.






# Rhowch y Baw yn y Bin!

Mae trigolion mewn cymunedau ar draws y sir wedi bod yn datgan pryder yn ddiweddar am broblemau baw cŵn ar strydoedd a llwybrau lleol, ac yn eu plith mae ardal Bethesda - gyda phryderon penodol ynglŷn â'r broblem ar lwybrau addefnyddir fel ffordd i fynd at ysgolion.

Cyfeiriwyd y pryderon ymlaen i Adran Gorfodaeth Stryd a Glanhau Strydoedd Cyngor Gwynedd er mwyn gweithredu. Bydd yr ardal yn derbyn ymweliadau mwy rheolaidd gan Wardeiniaid Gorfodaeth Stryd ac mae cynllun Trefi Taclus Gwynedd hefyd yn helpu i godi ymwybyddiaeth.

Dywedodd Gareth Griffith, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros faterion Priffyrdd a Bwrdeistrefol: "Cŵn yn baeddu ar dir cyhoeddus yw'r brif gŵyn yr ydym yn ei derbyn, ac mae'n fwy o broblem yn y gaeaf oherwydd y gall troseddwyr guddio gan ei bod yn dywyll yn gynnar yn y boreau ac yn tywyllu'n fuan gyda'r nos. Fel mae'r poster trawiadol yn ei ddweud, does 'dim esgus' gan droseddwyr - 'Rhowch y baw ci yn y bin!'"


# Cynnig Gofal Plant Cymru

## Addysg gynnar a gofal

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.



**Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn**

Ffôn: 01248 352436 E-bost: gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru

Mae nifer o gŵn wedi'u heintio â pharasitiaid a all fod yn niweidiol i bobl, yn enwedig i blant. Clefyd yw Toxocariasis a achosir gan wyau pryfaid toxacara yn cael eu trosglwyddo o gŵn i bobl drwy faw a gwastraff ci wedi'i heintio. Gall y clefyd arwain at salwch neu hyd yn oed ddallineb.

Meddai'r Cynghorydd Rheinallt Puw, Aelod Cyngor Gwynedd dros ward Ogwen, Bethesda: "Mae yna nifer fechan o droseddwyr parhaol yma ym Methesda sy'n gadael i'w cŵn faeddu, gan boeni dim am yr effaith y mae eu hesgeulustod yn ei gael ar iechyd a lles pobl eraill. Felly 'rwy'n falch iawn fod Tîm Gorfodaeth Stryd a chynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd yn helpu i ddod o hyd i'r troseddwyr a chodi ymwybyddiaeth yn lleol."

Yng Ngwynedd, mae mynd â chi i ardal chwarae plant penodedig, tir ysgolion, cae chwaraeon, i draethau penodol (Ebrill - Medi) neu adael i'ch ci wastraffu mewn ardal gyhoeddus yn dramgwydd troseddol. Gall troseddwyr dderbyn dirwy o £100, ac os na thelir y ddirwy gall hyn arwain at orchymyn llys a dirwy o hyd at £1,000.

Am fwy o wybodaeth ynghylch ymgyrch Cyngor Gwynedd, Trefi Taclus, cysylltwch ag aelod o'r tîm yn 01766771000 neu gyrrwch e-bost i tidytowns@gwynedd.llyw.cymru

Mae cynllun Trefi Taclus yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o wella ansawdd yr amgylchedd yn lleol.

# Y Dyddiadur toriadau (7)

## Detholiad gan Derfel Roberts

*(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)*

**Mr Owain T Hughes**

Yn y dyddiadur toriadau bychan dangosir llun o Owain T Hughes o'r Amerig oedd ar ymweliad a Môn oddeutu Chwefror 1933 pan oedd yn 84 mlwydd oed. Casglwn mai yn Wisconsin yr oedd Owain T Hughes yn byw ac iddo gael ei eni yn Nhy'n y Mynydd, Bodafon yn 1848. Cyn ymfudo i'r Amerig, bu Owain Hughes yn hwsmon ar fferm Ty Mawr, Llanfair PG ac oddi yno yr ymfudodd i'r Amerig yn 1871. Hwyliodd ar long o'r enw 'City of London' a chymerodd bedwar diwrnod ar ddeg i gyrraedd Efrog Newydd. Yno cafodd le mewn gwesty a gedwid gan J. W. Jones, brawd Dafydd Morgannwg a'r gwr hwnnw roddodd gyfarwyddyd iddo fynd i Wisconsin. Aeth i Racine yn y dalaith honno a gweithiodd ar fferm yno am gyfnod cyn gadael i weithio gyda chwmni rheilffordd yn Milwaukee *'lle bu yng ngwasanaeth y cwmni am drigain mlynedd'*.

# Ysgol Llandygai

**Mis Ionawr 2019**

Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr Llais Ogwan gan holl ddisgyblion a staff Ysgol Llandygai.

**Gwirfoddolwyr Darllen**

Braf yw cael croesawu ein ffrindiau yn ôl i ddarllen gyda rhai o ddisgyblion yr ysgol. Gwerthfawrogir eich gwaith a'ch amser yn fawr iawn.

**Ymwelwyr**

Daeth Mr Marc Griffiths atom yn ddiweddar i greu rhaglen radio gyda disgyblion Dosbarth Tirion a oedd yn cael ei darlledu ar Radio Cymru FM.

**Llais y Plentyn**

Bellach mae grwpiau amrywiol wedi'u sefydlu yn yr ysgol lle mae disgyblion o wahanol oedran yn gallu cyfarfod gydag aelodau o'r staff i ddatblygu meysydd o fewn yr ysgol. Yn sicr,mae llais y plentyn yn amlwg yn yr ysgol.

Daeth Mr Paul Jones, Talybont, i sgwrsio a chyd-gynllunio gydag aelodau 'r 'Grŵp Ysbrydol' er mwyn creu gardd fechan siâp croes yn y berllan o flaen yr ysgol. Mae'r disgyblion hefyd wedi ysgrifennu at Ganolfannau Garddio lleol yn gofyn am gymorth a chyfraniadau.

Mae'r 'Dreigiau Doeth' wedi bod yn brysur yn cynnig syniadau ar sut i ddathlu Diwrnod y Llyfr ar ddechrau Mis Mawrth. Bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dod i'r ysgol mewn gwisgoedd cymeriadau Gwlad y Rwla, a'r Adran Iau fel cymeriadau o nofelau Roald Dahl. Hefyd maent wedi cynnig ein bod yn dathlu Diwrnod Miwsig Cynmru drwy wrando ar ganeuon Cymraeg drwy'r dydd.

Mae grwp 'Yr Ieuanc Iach,' sydd yn gyfrifol am annog bwyta'n iach a chadw'n heini, wedi cynnal cystadleuaeth i lunio poster i hysbysebu r Troli Ffrwythau sydd yn cychwyn ar ei thaith ar ôl hanner tymor. Llangyfarchiadau i Keira Thomas am lunio poster lliwgar gyda neges glir. Bydd y troli yn gwerthu amrywiol ffrwythau a diod o ddŵr. Maent hefyd wedi gofyn am finiau brown ailgylchu o amgylch yr ysgol.

Mae 'Y Gofalwyr Gwyrdd' yn ymgyrraedd tuag at Y Wobr Arian Eco Sgolion ac yn brysur yn coladu gwybodaeth am arferion da yr ysgol. Maent hefyd wedi bod yn brysur yn cynllunio Wythnos Masnach Deg, fydd yn digwydd yn y dyfodol agos.

Bydd mwy o hanesion am y grwpiau yn y rhifyn nesaf.

**Codio**

Cawsom groesawu Mr Alex Clewett atom i hyfforddi disgyblion a staff ar sut i ddefnyddio 'Codio' yn y ffordd mwyaf effeithiol wrth wynebu Cwricwlwm Donaldson. 'Roedd wedi gwirioni gyda brwdfrydedd y disgyblion, a'u creadigrwydd wrth raglennu a chyfeirio teclynnau amrywiol.

# Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2018

**Buddugwyr y cystadlaethau llenyddol agored**

**Beirniad:** Karen Owen, Penygroes

**Y Gadair:** Dafydd Guto Ifan, Llanrug.

**Englyn:** Rachel James, Boncath, Sir Benfro.

**Englyn ysgafn:** John Ffrancon Griffith, Abergele.

**Y Fedal Ryddiaith:** Dafydd Guto Ifan, Llanrug.

**Stori fer:** Megan Richards, Aberaeron.

**Erthygl neu ysgrif:** Megan Richards, Aberaeron.

**Sgets ddigrif:** Griffith Richard Williams, Groeslon.

Modurdy Central
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

# Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Yn ystod y mis mae'n debyg i chi dderbyn taflen Hywel Williams ein haelod seneddol, drwy'ch drws. Mae Hywel yn gweithio yn ddiflino dros bobl ei etholaeth yn y senedd yn Llundain. Mae'n adnabyddus am ei arbenigedd yn y maes pensiynau, budd-daliadau a chyfiawnder cymdeithasol, ac wedi ennill nifer o achosion i'w etolwyr. Mae ei fanylion cysylltu ar y daflen.

Yn ein cyfarfod cangen mis Ionawr dywedwyd bod y Cynghorydd Rheinallt Puw yn trefnu cyfarfod i drafod y tymor torri gwair nesaf mewn digon o bryd. Mae hefyd wedi llwyddo i gael cysgodfan bws yn Adwy'r Nant ac mae'r Cyngor wedi cytuno i oleuo llwybr Ysgol Abercaseg. Mae hefyd wedi llwyddo I gael ymgyrch gwared â baw ci ar Stryd Fawr Bethesda.

Mae'r pedwar cynghorydd sir wedi cyfarfod â Sian Gwenllian A.C. i drafod ymhellach y broblem barcio drwg yn Nant Ffrancon. Cawn adroddiad yn y Llais fis nesaf.

Cafwyd gwybodaeth hefyd gan gynghorwyr cymuned bod cynnydd wedi ei wneud gyda maes parcio Gerlan. Mae llawer o waith i'w wneud eto, ond ar ôl yr anawsterau a'r oedi hir, mae hyn i'w groesawu

Cofiwch am ein bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar Fawrth 2il, gwelwn chi yno.

## Ysgol Llanllechid

**Croeso Nôl**
Croeso cynnes yn ôl i Mrs Macdonald i'r gegin.

**Santes Dwynwen**
Wel am hwyl a gawsom ar y diwrnod arbennig hwn! Anwyldeb plant i'w weld yn glir wrth iddynt rannu cardiau ymhlith ei gilydd ac un neu ddau o'r rhai lleiaf yn daer eu bod am briodi!! Atgoffwyd pawb o'r stori a bu morio canu cân Dwynwen yn y neuadd ymysg gweithgareddau eraill. Pen llanw'r cyfan oedd y disgo Cymraeg yn y neuadd gan Mr Stephen Jones.



**Syria**
Bu disgyblion Blwyddyn 3, gydag Anna Pritchard, yn creu campweithiau ar gyfer digwyddiad Cyffwrdd Syria, yn Pontio ar Ionawr 19. Cafodd addurniadau yn arddull artistiaid Syria eu creu e.e mosaic a teils Syriaidd. Bu'r disgyblion yn dysgu am y wlad ryfeddol hon fel rhan o'n rhaglenni Addysg Byd, gan geisio edrych heibio i erchyllderau'r rhyfel, ond gan gofio ar yr un pryd mai eisiau democratiaeth a mwy o ryddid oedd y protestwyr heddychlon cyntaf, wrth ymateb i gyfundrefn lawdrwm.

THEATR BARA CAWS
'COSTA BYW'

Mae Cwmni Theatr Bara Caws, mewn cydweithrediad â Cwmni Tebot, yn falch o gyflwyno Costa Byw - rifíw hwyliog sy'n cyfuno'r dwys a'r digri ac yn dychmygu sut le fydd Gwynedd mewn blynyddoedd i ddod. Drwy lygaid cymeriadau niferus cewch weld canlyniadau ein difaterwch presennol wrth iddynt geisio gwneud synnwyr o'u byd blêr nhw, a darganfod beth a'u harweiniodd nhw i fyw mewn byd o'r fath. Cewch ambell gip ar broblemau cyfoes - mewnfudo, diffyg swyddi, cost tai, gwleidyddion, newid hinsawdd, crîm egs yn mynd yn llai bob gafael, hyn oll a mwy. Ymunwch â ni i weld be'n union ydi a be fydd costa byw 'di mynd!

Dyma sioe berthnasol i bob cymuned yn yr oes ohoni gan dri dramodydd ifanc, lleol – Mari Elen, Mared Llywelyn a Llyr Titus.

**Yr Actorion**: Iwan Charles a Llyr Edwards
**Cyfarwyddwr**: Betsan Llwyd

**Ar daith**:
26 Mawrth – 13 Ebrill, 2019

**NEUADD OGWEN Nos Fawrth 26 Mawrth am 7.30**

Gellir cael tocynnau o Siop Ogwen – 01248 208485 neu mynd ar wefan Neuadd Ogwen: **www.neuaddogwen.com**

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Cafwyd amser i graffu ar greadigedd pobl Syria, sy'n cyd-fynd â'n gwaith Ysgol Arweiniol Greadigol. Diolch o galon i Angharad Griffiths am ein hysbrydoli, ac am ddod atom i'n gwasanaeth boreol.

**Afalau Calennig**
Bu dosbarthiadau Mrs Williams, Ms Elen Evans, Miss Ffion Jones a Ms Kate Mithan o'r Cyfnod Sylfaen yn brysur yn creu afalau calennig, yn mynd o amgylch y dosbarthiadau yn canu eu rhigymau, ac yn dymuno pob dymuniad da i bawb am flwyddyn newydd hapus a heddychlon.



**Ysgol Iach**
Cafwyd ystod o weithgareddau gwahanol yn ystod ein diwrnod Ysgol Iach er mwyn ail-danio a llenwi bylchau yn ein cynllun. Un o'r uchafbwyntiau oedd sesiwn ioga yn nosbarth Mrs Gwenlli Haf gan Ms Haf ei hun! Bu'r disgyblion yn dysgu am bwysigrwydd strategaethau gwrth-fwlio a hawliau; sgipio ar yr iard; mynd am dro i chwarel Pantdreiniog; mesur ffitrwydd gyda Dr Ross Roberts; cadw'n heini gyda Ms Emma Williams; cyflwyniadau gan yr NSPCC a llawer mwy!

**Eisteddfod Cylch yr Urdd**
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno enwau: Chwefror 18

**Cerdd a Llun**
Diolch yn fawr i Mr Gwynfor Lloyd Griffiths am ddod draw i'n hysgol i drafod ei lyfr Cerdd a Llun. Mae Mr Griffiths yn arlunydd heb ei ail, ac mae'r darluniau pensil sy'n cyd-fynd â'r cerddi, yn werth eu gweld. Diolch i chi Mr Griffiths am rannu eich atgofion efo ni ac am adrodd y straeon ohonoch yn hogyn bach yn adrodd y cerddi hyn ar eich côf. Diolch am y gyfrol, sy'n werth ei chael. Mae ein disgyblion yn gwybod llawer o'r cerddi hyn ar eu côf e.e. 'Wrth ddychwel tuag adref'; 'Wyt Ionawr yn oer'; 'Nant y Mynydd'; 'Ganllath o gopa'r mynydd'; 'Fin nos fan hyn'; 'Fe waeddodd gwynt yr hydref'; 'Wele'n cychwyn dair ar ddeg', a llawer mwy. Gwahoddwyd Mr Griffiths i'n cyngerdd Gŵyl Ddewi ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at hynny.




**Cig Organig Blaen y Nant**
Pleser oedd croesawu Mr Gwyn Thomas o fferm Blaen y Nant, a ddaeth draw i'r ysgol at ddosbarthiadau Mrs Rona Williams, Ms Kate Mithan, Ms Elen Clwyd Evans a Mrs Ffion Jones, i sôn am gig organig. Mae Mr Thomas yn ffermio ym Mlaen y Nan, yn Nant Ffrancon ac mae'r cig y mae'n ei gynhyrchu yn flasus dros ben! Cafodd y plant gig oen, gafr a byrgyrs porc i'w blasu. Mynnwch gig o fferm Blaen y Nant y flwyddyn newydd yma sef: Tryfanorganics! Diolch yn fawr iawn i chi Mr Gwyn Thomas am ddod draw atom – prynhawn dymunol dros ben.

**Clwb Henoed Rachub**
Braint oedd croesawu Clwb yr Henoed i Ysgol Llanllechid i gael eu diddanu gan ein plantos. Cafwyd cyngerdd yn neuadd yr ysgol a'r plant yn morio canu caneuon o'u sioeau Nadolig. Diolch i Anti Gillian am y bara brith bendigedig ar gyfer y te, a diolch hefyd i Ms Leanne am y cacennau blasus! Pawb wedi mwynhau – diolch i bawb! Cydymdeimlwn yn fawr â theulu y diweddar Margaret Owen, sydd wedi bod yn un o'r ffyddloniaid annwyl ar hyd y blynyddoedd.

**Trydanwyr o Fri!**
Diolch yn fawr iawn i tad Catrin, sef Sion Wyn Morris, a Bob Hughes o gwmni *Morris and Hughes Electrical* am ddod at ddosbarth blwyddyn 2, sef dosbarth Mrs Wilson, i drafod eu gwaith. Bu'r plant yn dysgu am rai o'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau cyflenwad trydan i dai. Cafwyd amser hefyd i drafod peryglon trydan. Diolch i'r ddau am ddod i Ysgol Llanllechid i ddiddanu'r disgyblion. Cafwyd prynhawn arbennig o dda yn eich cwmni, a'r plant yn llawn diddordeb! Diolch o galon!

**Mr Barry Archie Jones**
Braint oedd cael croesawu Mr Barry 'Archie' Jones o fand Celt i'n hysgol! Bu'r disgyblion yn gwrando'n astud ar hanes cefndir diddorol y band, ac ar hanesion amdano fel cyn-ddisgybl yn Ysgol Llanllechid. Cafodd dosbarth Mr Stephen Jones fodd i fyw wrth wrando ar Archie yn perfformio ambell glasur, gan gynnwys yr enwog 'Un Funud Fach', a chael dysgu sut i chwarae ein hanthem ar yr ukelele. Pleser pur oedd cael treulio amser yng nghwmni Archie. Wyddoch chi beth? Mi gawson ni anrheg arbennig i'r ysgol! A'r anrheg oedd ukelele a llun y ddraig goch arni, wedi'i harwyddo gan 'Archie' ei hun.. Dyna i chi beth ydi dyn caredig, a hynod dalentog! Edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl atom unwaith eto yn fuan. Diolch o galon!

**Amgueddfa Awyr Caernarfon**
Fel rhan o waith Blwyddyn 3, aeth dosbarth Mrs Marian Jones ar daith oedd yn gysylltiedig â'r thema 'Hedfan', i Ddinas Dinlle i weld yr 'Amgueddfa Awyr'. Cafwyd cyfle i fynd i mewn i rai o'r hofrenyddion a'r awyrennau, ac 'roedd cael mynd dros y ffordd i weld yr Ambiwlans Awyr yn anhygoel! Diolch i Mr Alwyn Jones am ei sgwrs ddifyr. Cafwyd sgyrsiau diddorol hefyd gan beilot a meddyg, ac 'roedd ymatebion y disgyblion yn cael eu canmol yn fawr ganddynt – gwybodus dros ben! Pawb wedi gwirioni a dysgu llawer.

**Ymweliad Mr Bale**
Daeth Mr Bale, [tad Harri] i'r dosbarth i siarad am ei brofiadau fel peiriannydd yn yr RAF. Dangosodd luniau o bob math o awyrennau, a soniodd am rai o'i anturiaethau gyda hofrennydd y Tim Achub. Mae wedi cerdded a dringo nifer o fynyddoedd ar draws y byd, gan gynnwys llethrau Everest. Rhyfeddwyd at y golygfeydd yn y lluniau bendigedig a ddangoswyd.

**Llety Lloerig**
Llongyfarchiadau i'r canlynol ar gymryd rhan yn y pantomeim yn Neuadd Ogwen: 'Llety Lloerig' o dan adain Clwb Drama Crawia: Gwenno Beech, Llinos ac Angharad Ball, Seren Roberts, Gruff Beech, Chenai Chikanza, Gruff Beech, Mari Watcyn Roberts a Hana Pierce Jones. Llongyfarchiadau gwresog i bawb ac i Mrs Marian Jones am ei gwaith yn sgriptio.

**Croeso Adref**
'Rydym mor falch o gael dweud fod Ela Williams, dosbarth Mrs Wilson, yn gwella ar ôl treulio amser yn Ysbyty Alder Hey. 'Rydym i gyd yn cofio ati ac yn dymuno'n dda iawn i'r ferch fach hynod ddewr yma.

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe? © Dr J. Elwyn Hughes



# Clwb Golff Nant Ffrangcon (2)

Nodais yn f'ysgrif y mis d'wetha' fod gen i gopi o lyfryn bychan, 4 wrth 5 modfedd o ran maint, efo clawr pinc gola', yn rhestru rheolau 'Clwb Golff Nant Ffrangcon'. Codwyd pwyllgor i fod yn gyfrifol am y Clwb a chynhwysai hwnnw y Llywydd, y Capten a'r Is-gapten, yr Ysgrifennydd, y Trysorydd, a naw Aelod Cyffredin.

Pennwyd pedwar math o dâl aelodaeth (am flwyddyn), fel a ganlyn: 'Gentlemen: £1.10.0; Ladies: £0.15.0; Non-playing Members: £0.10.0 and upwards; Junior Members (Boys and Girls under 18): £0.10.6', ac roedd yn rhaid talu ymlaen llaw ar Fai 1 bob blwyddyn.

Ar ddyddiau Llun, Mawrth, Iau a Gwener, ni châi'r aelodau iau chwarae ar ôl 5 o'r gloch y pnawn nac ar ôl 1pm ar ddyddiau Mercher a Sadwrn. Roedd telerau arbennig i 'Ymwelwyr' ('Gentlemen' a 'Ladies'): am fis: £1.5.0 a £0.15.0; am bythefnos: £0.12.6; £0.12.6 a £0.10.0; am wythnos: ££0.7.6 a £0.5.0; am ddiwrnod (dynion a merched: £0.2.0 a £0.3.0; ond codair tâl i dri swllt y diwrnod i ferched a dynion fel ei gilydd.

Wrth gloi f'ysgrif dd'wetha', holais a oedd unrhyw un o ddarllenwyr *Llais Ogwan* yn gallu taflu rhagor o oleuni ar hanes y *Nant Ffrangcon Golf Club*? Wel, nac oedd, mewn gwironedd, gan na chefais ond un ymateb a hynny gan Ms Dilys Pritchard, Bethesda. Crybwyllodd hi y gallai llyfrau a dogfennau Clwb Golff Nant Ffrancon fod wedi cael eu trosglwyddo i Glwb Golff St Deiniol, Bangor, pan gaewyd y Clwb yn Nyffryn Ogwen. Gwaetha'r modd, dw i ddim wedi cael cyfle i chwilio am ragor o fanylion ynghylch y stori hon ond byddwn yn hynod falch pe gallai unrhyw un o swyddogion Clwb Golff St Deiniol yn gysylltu efo fi drwy ebost neu lythyr neu dros y ffôn (670 517) pe gallai daflu goleuni ar hanesyn diddorol Dilys Pritchard.

Afraid dweud bod angen gwneud llawer mwy o ymchwilio i ddod o hyd i hanes y Clwb arbennig hwn yn Nant Ffrancon. A oes unrhyw un yn barod i gynorthwyo efo hynny?

Deuaf â'r ysgrif hon i ben gyda llun a ddaeth i'm meddiant rai blynyddoedd yn ôl, heb ddim ond un disgrifiad byr i'w gysylltu â thestun yr ysgrif hon. All unrhyw un ddweud rhagor amdano?



*Aelodau o Glwb Golff Nant Ffrancon yn y 1930au*

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Cae Pêl-droed Talybont
Prosiect Datblygu'r Cae Pêl-droed
Cynhelir cyfarfod cyhoeddus am 7yh Nos Fawrth, Chwefror 19,yn festri Capel Bethlehem, i drafod y potensial i ddatblygu cae pel-droed Talybont. Hoffai Cyngor Cymuned Llanllechid ganfod barn y gymuned ar botensial y datblygiad hwn, ac mae holiaduron eisioes wedi'u cylchredeg yn lleol. Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â Meleri Davies ar **partneriaeth@ogwen.org** neu 01248 602131.

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

# Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs. Jackie Davies a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Dilys, mam, nain a hen nain annwyl iawn. 'Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled fawr.

**Diolch**
Dymuna Mrs. Jackie Davies a'r teulu ddiolch i staff Plas Ogwen, Bethesda. 'Roedd Dilys wrth ei bodd yno ac wedi mwynhau ei hamser ym Mhlas Ogwen. Diolch i Gaffi Fitzpatrick am y lluniaeth arbennig ac i'r ymgymerwr, Gareth Williams, am ei drefniadau trylwyr.

**Panto**
Dymunwn ddiolch i Karen Duggan am drefnu'r pantomeim "Goldilocks a'r Tair Arth". Noson o adloniant a phawb wedi mwynhau. Diolch i Alison, Dave a Lynda am help ar y noson. Gwaith caled yw trefnu sioe. Diolch Karen!

**Clwb y Mynydd**
Cynhelir cyfarfod cyntaf y Clwb ar 20 Chwefror am 2 o'r gloch, ac yna ar y trydydd dydd Mercher bob mis. Croeso cynnes i chi!

**Eglwys St. Ann a St. Mair**
Sul 1af a'r 3ydd: 9.30 y.b. – Boreol Weddi
2ail a'r 4ydd: 9.30 y.b. – Cymun Bendigaid

Estynnwn groeso cynnes i bawb i ymuno â ni yn y gwasanaethau. Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun gartref cysylltwch â'r Parchedig Christina McCrea: (Bangor 372249).

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, a dymunwn adferiad buan i chwi oll.

**FFAIR BASG**
Sadwrn, 13eg Ebrill
11 - 2 p.m.
yn y **NEUADD GOFFA**
Mynydd Llandygai.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

# Ysgol Pen-y-bryn



**Gwaith Cartref Gwych**
Mae llawer o bwyslais yn ein gwaith Saesneg y tymor hwn ar ysgrifennu creadigol – byd hud a lledrith!! Fel rhan o'r gwaith cartref aeth y plant ati i ysgrifennu darn disgrifiadol am ffon hud y dewin Merlin. Aeth rhai ati i wneud ffon hud i gyd-fynd a'u disgrifiad! Gwych yn wir!

**Ymweliad o'r Archifdy**
Rhan o'n thema y tymor hwn yw'r Rhyfel Byd Cyntaf. Pa le gwell i gychwyn yr uned na chael ymweliad gan Gwenda o'r Archifdy yng Nghaernarfon! Cawsom sgwrs ddifyr ganddi am sut le oedd ym Methesda yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn ogystal â gweld hen bapurau newydd o'r cyfnod tywyll hwn. Diddorol tu hwnt!

**Cystadleuaeth Gymnasteg yr Urdd**
Dyma'r criw brwdfrydig a fu'n cynyrchioli'r ysgol yng nghystadleuaeth gymnasteg yr Urdd yng nghanolfan gymnasteg Gwyn Gym. Da iawn chi, mae'r ysgol yn hynod falch ohonoch chi am wneud eich gorau glas!



**DAFYDD CADWALADR**
**Cynhyrchion Coedlannol**
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
**01248 605207**

Copa
**Siop Trin Gwallt a Harddwch**
**Bethesda 600094**
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

**SAMARIAID**
Mae
**Llinell Gymraeg**
**0808 164 0123**
ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

**Arfbais Douglas Arms**
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
**Noson Cwis** Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
ORIAU AGOR
Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 600219

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Yr Eglwys Unedig**

*Plygain*

Cynhaliwyd gwasanaeth Plygain yn ystod mis Ionawr, a daeth nifer dda ymlaen i gymryd rhan, gan gynnwys rhai ifainc iawn. 'Roedd y Festri'n llawn i'r ymylon, a phawb wedi mwynhau'r datganiadau ardderchog, ynghyd â'r baned a'r bara brith ar y diwedd. Diolch i Ceri am drefnu'r cyfan eto eleni, i Walter am gynorthwyo, ac i Menai am gyfeilio. Gwnaethpwyd casgliad tuag at yr Eglwys.

*Oedfaon*

'Rydym wedi bod yn hynod o ffodus yn ddiweddar i gael gwasanaeth dau bregethwr ifanc addawol dros ben yn ein hoedfaon, sef Mrs Nerys Griffiths, a Mr Alun Morton Thomas, y ddau fel ei gilydd yn bwriadu mynd i'r Weinidogaeth. Dymunwn bob bendith i'r dyfodol iddynt.

*Aelodau Newydd*

Ar nodyn gobeithiol arall, cawsom y fraint o dderbyn dwy o'r newydd yn gyflawn aelodau, sef Caryl Pritchard a Buddug Watcyn Roberts. Mae Caryl wedi dod yn ôl i'w chynefin wedi cyfnod ym Mangor, ac mae Buddug yn un o blant yr Eglwys. Croeso cynnes i'r ddwy ohonoch.

*Cofion*

Anfonwn ein cofion at Mrs Helen Griffith yn yr ysbyty, at Mrs Jinnie Jones a Mrs Elina Owen yn eu cartrefi, ac at bob un sydd yn methu mynychu'r oedfaon ar hyn o bryd.

*Yr Ysgol Sul*

Erbyn hyn, mae plant yr Ysgol Sul wedi ymafael yn eu gwaith – thema'r tymor hwn yw 'Cariad', a diolch i'r athrawon am eu brwdfrydedd. Hyfryd yw cael ymuno â'r plantos dros baned ar ddiwedd oedfa'r bore! Gwelwn lun ohonynt yn dathlu yn dilyn eu perfformiadau ardderchog yn y Sioe Nadolig!



*Llenwi'r Cwpan*

Cofiwch am y baned ar fore Iau – cyfle i gymdeithasu a chael sgwrs ddifyr.

*Cyhoeddiadau'r Sul*

Chwefror
17: Y Parchedig Eric Jones
24: Y Parchedig Alan Spencer

Mawrth
3: Cyfarfod Eglwysig (10); Mr Gwilym Williams (5)
10: Y Parchedig Mererid Mair (10); Mr Dennis Davies (5)
17: Ms Karen Owen
24: Mr Richard Ll Jones (10); Y Parchedig Huw Pritchard (5)
31: Y Parchedig G Lloyd Evans (10); Y Parchedig Ddr. E Richards (5)

Croeso cynnes i bawb i'r oedfaon.

**Ysbyty**

Eto, ers y rhifyn diwethaf o'r Llais, bu sawl un yn treulio cyfnod yn yr ysbyty. Da deall eich bod yn gwella, ac anfonwn ein cofion atoch i gyd.

Dyma'r rhai a ddaeth i sylw gohebydd y Llais: Miss Brenda Hughes, Arafa Don; Mr. Geraint Saynor, Maes Coetmor; Mrs. Helen Griffith, Adwy'r Nant; Mrs. Enid Cooney, Glanffrydlas; Mrs. Margaret Llechid Roberts, Ffordd Ffrydlas a Mrs. Linda Hughes, Garneddwen.

Da deall fod Mrs. Jennie Jones, Bryn Caseg a Mrs. Elsie Evans, Garneddwen, wedi cyrraedd gartref erbyn hyn. Cofion atoch!

**Taid a Nain**

Llongyfarchiadau i Emyr a Heulwen Roberts, Ffordd Bangor, ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain i Huw Joseff, a anwyd ar 12 Ionawr draw yn Awstralia, i Dafydd a'i briod.

**Marwolaeth**

*Mrs. Dilys Wyn Williams*

Ar 7 Ionawr, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs. Dilys Wyn Williams, Plas Ogwen, gynt o Fynydd Llandygai, yn 89 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Les Williams, mam garedig i Griff, Richie, Jacqueline, Myfanwy, Les, Jenny ac Ifan. 'Roedd yn fam yng nghyfraith, nain a hen nain hoffus. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Llun, 14 Ionawr yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Llanbeblig, Caernarfon, gyda'r Barchedig Christina McCrea yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

*Mrs. Marjorie Kimpton*

Ar 8 Ionawr, yn 73 mlwydd oed, bu farw Mrs. Marjorie Kimpton, Maes y Garnedd. Priod y diweddar Mr. Ronald Kimpton a mam i Martin, Mark a Simon a mam yng nghyfraith i Anwen a Mandy. Roedd yn nain hoffus i Georgia, Owen, Ioan, Toby, Ben a Robert, ac yn llys-fam Denise, Alex a'r teulu.
Bu gwasanaeth yr angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Iau, 21 Ionawr.
Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn eto y mis hwn â sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar.

Mrs. Evelyn Edwards a'r teulu, Glanffrydlas, wedi iddi golli ei brawd, Mr. Dennis Morris, ym Mangor.

Hafwen, Gethin ac Enfys, Ffordd Bangor, wedi iddynt golli taid a hen daid annwyl,sef Mr. Cledwyn Jones, Y Groeslon.

Bu i Mr. Arwel Hughes a'r teulu, Mrs. Anwen Hughes a'r teulu a Mr. Bryn Roberts a'r teulu golli eu modryb draw ym Mhowys ddiwedd Ionawr. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs. Megan Parry, Plas Ogwen, ar golli ei chwaer.

**Triniaeth**

Cipiwyd Margaret Llechid Roberts, Ffordd Ffrydlas, i Ysbyty Glan Clwyd a chafodd driniaeth ar ei chalon. Da yw gwybod ei bod yn gwella ac anfonwn ein cofion ati.

**Eglwys Crist, Glanogwen**

*Gwasanaethau*

*Pob Bore Sul:*
Cymun Bendigaid Corawl am 11yb
Pob bore Mercher:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.
Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

*Profedigaeth*

Unwaith eto, trist yw cofnodi colli un fu'n selog yng ngwaith Eglwys Glanogwen dros nifer o flynyddoedd, sef Mrs Megan Williams, Ffordd Gerlan. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant at ei gŵr, Len, y plant a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

*Marchnad Ogwen*
Edrychwn ymlaen at y stondin ym Marchnad Ogwen mis Chwefror, a'r Bore Coffi yng Nghefnfaes ar Fawrth 16.

**Teyrnged i Gilbert Bowen**
gan Dilwyn Owen
*(a draddodwyd ar ddydd ei angladd yn Eglwys Crist Glanogwen ar 11 Ionawr 2019)*

Annwyl deulu, offeiriaid a chyfeillion,
Mae llawer ohonoch yma heddiw wedi adnabod Gilbert yn well ac am lawer mwy o flynyddoedd na wnes i, ond braint a phleser oedd derbyn gwahoddiad i ddweud gair neu ddau amdano.

*Yr Eglwys*
Ar ôl ei deulu a'i gartref, mae'n siŵr mae'r fan yma oedd y lle pwysicaf yn ei fywyd. Yn sicr bu'n un o hoelion wyth yr eglwys hon am amser maith. Bu'n warden, ystlyswr, darllenwr ac yn helpu gweini'r cymun. Byddai ar gael bob amser os oedd angen glanhau, twtio'r fynwent neu unrhyw berwyl arall. Hefyd bu'n gwarchod diddordebau'r eglwys mewn nifer o gyfarfodydd pan oedd yn aelod o'r cyngor plwyfol eglwysig. Roedd yn hoffi'r englyn yma am Eglwys Glanogwen, lle bu'n ffyddlon tu hwnt:

Ein crud a man ein credo – a lloches
i'n llechu rhag siglo;
Ein hafan, man cymuno
Adeilad clyd, bryd ein bro.

*Gorffwysfan / Caban*
Bu'n weithgar iawn yn Gadeirydd y Caban yn y Gerlan ac yn aelod selog iawn yn Gorffwysfan lle y difyrrai pawb â'i straeon. Mae gan y ddwy ganolfan raglenni amrywiol – tripiau, boreau coffi, Bingo neu wrando ar ymwelydd gwadd. Piti na fuasai mwy o bobl yn dod draw am sgwrs ac i fwynhau. 'Roedd yn aelod poblogaidd a diwyd dros ben yn y ddwy ganolfan. Gallai greu stŵr hwyliog drwy dynnu coes rhai o'r aelodau. Mae cyfarfodydd bore Llun a pnawn Mercher yn adloniant llwyr. 'Roedd yn mwynhau'r tripiau'n arw – fo a Gwenda. Dim ots i ble'r âi trip, 'roedd y gwmniaeth a'r hwyl a'r chwerthin yn ffisig i bawb. Roedd Gwenda a fo'n mwynhau cwmni'r ffrindiau o Sir Fôn hefyd ynghyd â Bess a Fred, Rita ac Elfed, a'r arweinydd Elis Wyn. Ond er mwynhau tripiau o bob math, 'Teg edrych tuag adref'.

*Bowlio*
Bu'n allweddol yn y frwydr i ail agor y lawnt ym Mharc Meurig yn ystod yr wythdegau. Cynhaliwyd cyfarfodydd di-ri gyda Swyddogion Cyngor Arfon bryd hynny cyn cael llwyddiant a gwelliannau o gwmpas ac ar y lawnt erbyn 1984-5. 'Roedd dros ugain yn chwarae ar y lawnt ar nos Fawrth, sef y noson cyn y gemau cynghrair ar nos Fercher. Chwarae a churo timau cryfaf y gynghrair sef Bangor a Biwmares. Yna yn 1997 cawsom wahoddiad gan Gareth Saer i ymuno â'r Clwb Criced a chael lawnt newydd gyferbyn â Pharc Villa. Eto 'roedd Gilbert yn flaenllaw yn y trefniadau. 'Rwy'n cofio Gilbert yn dweud wrth un chwaraewr o Dreffynnon, gan bwyntio tua Moel Faban 'some people still live in those caves you know' ac yna cerdded oddi yna. Hwnnw'n dweud wrth ei ffrindiau a phawb yn edrych tua'r mynydd! 'Roedd yn chwaraewr medrus, anodd i'w guro. 'Roedd tactegau da ganddo – os oedd o ar ei hôl hi byddai'n dechrau siarad gyda'i wrthwynebydd a slofi'r gêm i lawr. 'Roedd hwnnw wedyn yn colli arni a Gilbert yn ei ddal i fyny a'i guro. Direidus? Bu'n gadeirydd y Clwb Bowlio am flynyddoedd ac yn gadeirydd Cynghrair Bangor a'r Cylch yn ystod yr wythdegau hwyr.

*Diddordebau*
'Roedd Gilbert yn ddarllenwr brwd ac yn mwynhau llyfrau am Hanes, Rheilffyrdd a digwyddiadau mawr o gwmpas y byd. 'Roedd ganddo stôr o wybodaeth am lawer o bethau. Hoffai gerdded llwybrau'r ardal a mwynhau synfyfyrio am bethau mwy difrifol. 'Roedd yn hoff iawn o'r mynyddoedd o'n cwmpas:

Heddiw'r niwl dros ddôr y nant
Ewynna'r holl ogoniant.
Yn raddol dychwel golau
A llon haul i'n llawenhau.

Yna dychwelyd i gwrdd â Gwenda yng nghaffi Coed y Brenin. Yno cynhaliwyd Gweithdy Antur Dyffryn Ogwen ar un amser o dan ei ofal, ac 'roedd ar Bwyllgor y Caffi hyd nes i gwmni 'Agoriad' gymryd drosodd. 'Roedd yn un o'i hoff fannau yn y dyffryn

*Garddio*
A'I fod yn ŵr pwyllog, gofalus, 'does dim syndod bod ei ardd yn bictiwr. Y rhesi'n syth fel rhes o filwyr, y lliwiau yn llenwi'r llygaid a dim chwyn i'w gweld yn unman. 'Roeddem yn cyfnewid planhigion o bryd i'w gilydd ac yn edmygu gwaith ein hunain. 'Rwy'n ei gofio'n dweud wrth y lawnt fowlio un diwrnod, yn hollol ddi-wên: 'Mae fy moron wedi tyfu wyneb i waered'. Roedd y criw oedd yn bresennol wedi'u syfrdanu cyn i un ddweud 'Mae'n rhaid dy fod wedi plannu'r hedyn a'i ben i lawr'. Chwerthin mawr a bachiad arall gan Gilbert. Nid pawb sy'n bencampwr tyfu garlleg ychwaith. 'Roedd yn bysgotwr hefyd, un amyneddgar dros ben, yn mwynhau mynd am Lyn Ogwen. Yn anffodus ni chefais bysgodyn ganddo erioed.

*Pêl-droed*
Bu'n gefnogwr brwd o dimau Bethesda, Bangor ar un cyfnod, ac yn ddiweddar Mynydd Llandygai. Hoffai drafod y perfformiadau ac uchafbwyntiau pob gêm gan nodi gwendidau a chryfderau chwaraewyr unigol. 'Roedd cyfarfod bore Llun yn Gorffwysfan fel 'Match of the Day' gyda Gilbert fel Gary Lineker yn pwyso a mesur cyfraniad pawb.

Yr ydym oll yn cydymdeimlo â'r teulu ac yn ymwybodol o'r gofal, tu hwnt i'r galw, a gafodd yn ystod y tri mis diwethaf. Yn wir, fe lwyddodd Gilbert a Gwenda

'i naddu drwy'r blynyddau
Oriau clyd a hud rhwng dau'.

Bydd gwagle mawr yn y Gerlan, yn wir ym Methesda gyfan ar ei ôl. Gŵr teulu, un doeth, ffyddlon, gweithgar a phoblogaidd, ac 'rwy'n siŵr bod pawb yma yn cytuno. Bu'n fraint cael ei adnabod. Diolch a fo i Dduw.

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
Ronald Jones
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

Cerbydau Penrhyn
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

## Ysgol Bodfeurig



**Garddio**
Dros y ddau fis diwethaf mae criw o blant yr ysgol wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect arbennig sy'n rhoi profiadau awyr agored i blant a'u rhieni. Cynhelir y prosiect ar y cyd gyda Chanolfan Conway, Ynys Môn. Un rhan o'r prosiect yw gwella agwedd o dir yr ysgol, ac i'r perwyl hyn penderfynwyd bod lle i wella gardd lysiau'r ysgol. Mae blynyddoedd maith wedi mynd heibio ers i'r ardd gael ei sefydlu ac roedd angen ei hadnewyddu. Ar ddydd Sul oer iawn ym mis Ionawr daeth criw gweithgar o rieni a staff at ei gilydd, ac er nad yw'r gwaith wedi ei orffen, mae'r ardd bellach yn werth ei gweld. Diolch i bawb ddaeth i gefnogi a helpu!

**Adnabod Adar**
Fel rhan o'u thema 'Y Byd Mawr Crwn' mae dosbarth Idwal wedi bod yn dysgu am adar sy'n byw yn ein hardal. I ddysgu mwy aeth pawb ar ymweliad i RSPB Conwy, a chael cyfle i ddysgu sut i adnabod adar yn ogystal â dysgu mwy am yr adar sy'n byw mewn cynefinoedd gwahanol.

Yn dilyn yr ymweliad defnyddiodd y plant eu gwybodaeth newydd i fynd ar daith o amgylch yr ardal leol i chwilio am adar. Daeth pawb o hyd i nifer o adar bach ac mae'r gwaith yn parhau yn yr ysgol, gyda llawer o weithgareddau diddorol. Edrychwn ymlaen at wythnos gwylio adar RSPB i weld faint o wahanol fathau o adar sy'n ymweld â'r ysgol.





# Nyth y Gân

**Y Lili Wen Fach**
Hyder sydd gan yr hedyn i godi
Mor gadarn bob blwyddyn
A thyfu nid wrth ofyn
Yn ein gardd drwy'r eira gwyn.



**Tân**
Cryndod ddaeth dros y crindir, a'i fygu'n
Troi'n fwgwd ar sychdir;
Tynnwyd y tân hyd y tir
A'i ildio'n ddu anialdir.

**Lluwch**
O, am anodd yw myned i droedio
Ar adeg mor galed;
Waliau nid oes i'w gweled,
A'r lôn nid yw fawr o led.

**Y Gân**
Hen yw hon yn ein hanes, ond o hyd
Y daw hi'r gantores
Yn agos hefo'i neges
A'i rhoi yn llawn er ein lles.

Dafydd Morris

* * *

**Traddodiad**
Darfod wna llif traddodiad heb hanes,
Heb heniaith ei darddiad;
Ffynnon ein hamddiffyniad
I buro bro â'i barhad.

**Ymgadw'n Genedl**
Ein hil, er ei heiddiled, yw ceidwad
Y cadw mawr aeddfed;
Ai angau yw ei thynged
Yn grair od i'r rhai di-gred?

**Ein Diwreiddio**
Ein gwerth ddistewodd fel gwynt, ein caerau
A'n carodd nid ydynt;
Y pridd fu'n wreiddyn iddynt
Yw gwarth lle bu gwinllan gynt.

Goronwy Wyn Owen

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

**Teuluoedd yn tyfu**
Llongyfarchiadau i Meic a Sandra, 28 Cae Gwigin, ar ddod yn daid a nain am y degfed tro!

Ganwyd mab bach, Aeron, i'w merch Emma a'i gŵr, Meurig, ar Ragfyr 17eg. Yn ôl pob sôn, mae Owain wrth ei fodd efo'i frawd bach.

Llongyfarchiadau calonnog i Brian a Rita Thomas, Bryn Celyn, ar ddod yn hen daid a nain am y tro cyntaf. Ar ddechrau mis Ionawr, ganwyd Damien Ryan i'w hwyres Holly, sy'n gwneud eu merch hynaf, Michelle, yn nain. Anodd credu !

Ar ochr Rita, Damien yw'r bachgen cyntaf mewn pum cenhedlaeth!

**Coffháu**
Edrychwn ymlaen at ddysgu mwy am y Garreg Goffa ithfaen a osodwyd ar dir fferm Glan Môr Isaf yn ddiweddar. Mae'r hanes yn swnio'n hynod o ddiddorol.

**Diolch**
Dymuna Gwyneth, Wil, Hafwen, Gethin, Enfys a'r teulu oll ddatgan eu diolch cywiraf am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid arbennig.

Diolch am y rhoddion hael o £910 a dderbyniwyd er côf tuag at Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.

**Anhwylder**
Mae Idris Thomas gartref unwaith eto, ar ôl treulio ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty. Bu 'nôl a blaen yno sawl tro yn ystod y misoedd diwethaf. Gobeithio y bydd yn haws iddo ymdopi wedi i'r tywydd oer fynd heibio.

Brysiwch wella, Idris, a phawb arall sy'n methu mynd o gwmpas fel y dymunent yn ystod dyddiau llwm y Gaeaf.

**Pen-blwydd arbennig**
Mae Sheila Owen, Millbank, yn dymuno diolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Yn sicr, un o'r anrhegion gorau oedd ymweliad cwbl annisgwyl ei merch, Elaine a'i hwyres, Dawn, o Norfolk. Roeddynt wedi gyrru am oriau maith i ddathlu efo'r teulu agos mewn bwyty – y cyfan yn ddiarwybod i Sheila. Pen-blwydd i'w gofio'n wir!

**Croeso**
Croeso i David a Tina Moorcroft, sydd newydd symud i mewn i 'Ger y Llan', dros y ffordd i Eglwys Maes y Groes. Coffa da am rieni David, cwpl tawel, boneddigaidd, a deiliaid y tŷ tan eu marwolaeth. Byddai'r ddau yn hoff iawn o fynd am dro cylch yn Nhalybont bron yn ddyddiol.

Gobeithio y bydd David a Tina yn hapus iawn yn ein plith, ac y cawn eu cwmpeini yn yr amrywiol weithgareddau a gynhelir o dro i dro yn y pentref.

**Llety Lloerig**
'Roedd pobl Talybont yn falch iawn o weld Beca Nia yn chwarae ei rhan mor dda yn y pantomeim – llongyfarchiadau!

**Eglwys St Cross, Maes-y-Groes**
*Pen-blwydd Arbennig*
Llongyfarchiadau i Mrs Sheila Owen, Millbank, ar ddathlu pen-blwydd arbennig tua diwedd mis Ionawr. Dymuniadau gorau i ti, Sheila.

*Salwch*
Dymunwn wellhad buan i Mrs June Hughes, 1 Bro Emrys, sydd wedi bod yn yr ysbyty.

*Gwasanaethau mis Ebrill*
Ym mis Ebrill, bydd newid i amser y gwasanaeth ar yr 2il Sul yn y mis. Hyd yn hyn, mae gwasanaeth yr 2il Sul wedi dechrau am 9.45 y bore, ond am gyfnod prawf o chwe mis, bydd y gwasanaeth yn dechrau am 11 o'r gloch.

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon*
Chwefror 17: Parchg. Eric Jones, Bangor.
Chwefror 24: Gweinidog.
Mawrth 03: Parchg. Emlyn Richards, Cemaes;
Mawrth 10: Gweinidog.
Mawrth 17: Parchg. Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern.
Mawrth 24: Gweinidog. (Oedfa Deuluol gyda phlant yr Ysgol Sul)
Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

*Cofion*
Mae Mrs. Eirlys Ellis yn gwella ac wedi dod i Blas Ogwen cyn iddi gael dychwelyd adref i Dalybont. Anfonwn ein cofion ati, a hefyd at aelodau eraill o'r capel sydd mewn cartrefi preswyl, sef Miss Dilys Williams, (Plas Ogwen) a Mrs. Iola Williams a Mrs. Rose Thomas (y ddwy yng nghartref Ceris Newydd).

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

CSL GWASANAETHAU CYNORTHWYO FFERM
Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?
- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,
E-bost: admin@cslfarm.com,
Ein gwefan: www.cslfarm.com

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106*
*Porthaethwy (01248) 719517*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000*

**JOHN ROBERTS**



**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**

**GWASANAETH DYDD A NOS**

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS

**01248 361044 a 07771 634195**



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

## Y Gerlan

**Caren Brown** Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Heledd Selwyn,** 2 Pen Clwt, Gerlan
LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640 /
heleddselwyn@hotmail.com

**Diolch**

Dymuna Gwenda, Rosslyn, Andrew a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli Gilbert. Diolch yn fawr hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof amdano. Casglwyd cyfanswm o £2000 tuag at Gyfeillion Ysbyty Gwynedd.

Dymuna teulu'r diweddar Tecwyn Hughes (Tec) Gerlan Road ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

Diolch i bawb a gymrodd ran yn y gwasanaeth yng Nghapel Jerusalem ac i Gareth Williams am ei wasanaeth trylwyr. Diolch hefyd i'r Feddygfa am eu gofal amhrisiadwy.

Rhannwyd y rhoddion rhwng Hafan Menai, Marie Curie, Capel Jerusalem a'r Caban a oedd yn agos iawn at ei galon. Diolch yn fawr i chi gyd.

**Colled**

Ar y 15fed o Ionawr, collodd Gerlan wyneb cyfarwydd arall, sef Maggie Elinor Williams (Megan). Bu farw Megan yn dawel yng Nghartref Plas Ogwen ond 16 Ffordd Gerlan oedd ei chartref. Gwraig gariadus Len, mam a mam yng nghyfraith annwyl Gerallt ac Angharad, Dylan a Helen, Nerys ac Elwyn. Nain, hen nain a hen hen nain annwyl iawn. Bydd yn golled drist i'w holl deulu a'i ffrindiau. Hoffai'r teulu ddiolch yn arbennig i Plas Ogwen am eu gofal arbennig ohoni dros y blynyddoedd diwethaf.

Cafwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Bangor ar y 23ain i goffau ei bywyd a derbyniwyd rhoddion hael er cof amdani. Casglwyd £345 i'r Lleng Prydeinig a £318 i'r NSPCC. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd ac am y rhoddion. Claddwyd llwch Megan ar y 28ain o Ionawr - sef diwrnod ei phen-blwydd, pryd y byddai wedi bod yn 99 oed.

**Dathlu'r aur**

Braf oedd gweld bod Linda a Peter Brown Gwernydd wedi dathlu eu pen-blwydd priodas aur yn yr haul ym Madeira. Hoffai'r ddau ddiolch i'w holl ffrindiau a'u teulu am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd – maent yn ddiolchgar am bob un!

**Gwellhad buan**

Yn ddiweddar, bu Ellen Edwards Glanrafon, yn Ysbyty Gobowen yn cael llawdriniaeth. Gobeithio dy fod yn dod atat dy hun Ellen. Cofion cynhesaf atat.

**Cyfarfod blynyddol y Caban**

Cynhelir cyfarfod blynyddol Caban Gerlan (Cymdeithas Diogelu'r Gerlan) yn y Caban Nos Iau, Chwefror 21ain am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i unrhyw un fyddai â diddordeb dysgu mwy am waith y Neuadd a chyfrannu at y gwaith o gynnal y Caban.

**Colli Manon**

Ar y 24ain o Ionawr, bu farw Manon Wynne Pritchard (Parry gynt) yn dawel, ond yn frawychus o sydyn, yn Ysbyty Gwynedd, yn dilyn cyfnod o salwch byr. Magwyd Manon yn Stryd Hir Gerlan – yn ferch i Arthur a Menai a chwaer annwyl i Martin, a bu'n ddisgybl yn Ysgol Gerlan, Pen y Bryn ac Ysgol Dyffryn Ogwen. 'Roedd Manon erbyn hyn yn byw yn Godre'r Parc Sling efo'i gŵr, Alun a'i dwy ferch Emily Ann ac Ela Mai. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch fel teulu. Bydd yn golled enfawr i'w theulu a'i ffrindiau oll. Bydd rhoddion er cof amdani yn cael eu cyflwyno i Ward Alaw Ysbyty Gwynedd.

**Pen-blwydd Hapus**

Pen-blwydd Hapus i Cadi Elen, Rallt Uchaf, yn ddeunaw oed ar y 4ydd Chwefror oddi wrth Taid, Nain, Dad, Mam a Nel, Iolo a Llywelyn.

## Braichmelyn

**Rhiannon Ifans**, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Dylan Williams, Glan Caseg, a Gareth a Nici, Llys Meurig, yn eu profedigaeth o golli Mrs Megan Williams. 'Rydym yn meddwl amdanoch yn eich hiraeth.


Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder.

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

# Croesair Llais Ogwan



**AR DRAWS**

1 Pechadurus (4)
4 Drysu'n wyllt i gyflawni gweithred gelwyddog a dichellgar (4)
8 Fel pader cyn cysgu (6)
9 Mae blaen y forwyn yn godro yn flêr, ond rhaid ei wneud (6)
10 Achlysuron, sy'n cymryd lle (11)
11 Rhoddodd y blaidd floedd iasoer (4)
13 4d. - traean swllt (4)
16 Astudio'r ffordd mae pobl yn ymddwyn tuag at ei gilydd (11)
19 Y gallu i ragori mewn celf neu ddiwylliant (6)
20 Y ddelw o goed dryslyd sy'n rhoi help i goginio (6)
21 A dos yn ôl i roi sbarc yn y dŵr pefriog (4)
22 Plentyn sy'n wahanol iawn i 1 Ar Draws (4)

**I LAWR**

2 Mae bocsiwr, dyn llefrith neu ffrind mewn tafarn yn gyfarwydd ag un (5)
3 Chwech oedd gan Harri'r 8fed (7)
4 Teulu a thras (6)
5 Ffurf lenyddol fel erthygl neu draethawd (6)
6 Pa amser gaf fi fwyta ? (4)
7 Ôl curo drwg, rhaid rhoi minlliw a phowdr (6)
12 Porthladdoedd fel rhai enwog Lerpwl ac Abertawe gynt (6)
13 Sut o geg yn tawelu (7)
14 Fflachio'n y tywydd (6)
15 Hen air am goleg neu ysgol (6)
17 Mae'n garreg di-gollnod (4)
18 Dal yn agos ac yn dynn (5)

**ATEBION CROESAIR IONAWR 2018**

**AR DRAWS** 1 Gwaelod, 5 Cwlwm, 8 Arogl, 9 Wardrob, 10 Gwisgodd, 11 Samba, 12 Madfall, 14 Unaist, 17 Wadodd, 19 Pwllderi, 22 Gaeafol, 23 Cyhyd, 24 Newid, 25 Gan Guro

**I LAWR** 1 Gwasg, 2 Addoliad, 3 Lelog, 4 Diweddu, 5 Cerosin, 6 Larwm, 7 Mabsant, 12 Mawlgan, 13 Amddifad, 15 Iselhau, 16 Epilog, 18 Dienw, 20 Llecyn, 21 Iodlo

Dyma'r gwallau a gafwyd y tro hwn. Dau ohonoch wedi rhoi 'Pwllheli' (19 Ar Draws) fel safle cofeb y bardd Dewi Emrys. Ond 'Pwllderi' (Sir Benfro) yw'r ateb cywir. Dau arall wedi cynnig 'Lilag' (3 I Lawr) yn hytrach na'r ateb cywir 'Lelog', ac un wedi rhoi 'Swmba' yn lle 'Samba'.

Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol gywir : J.R ac M.A. Jones, Llanllechid; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Gareth William Jones, Bow Street; John H. Evans (Llanberis) a Rhian Evans-Hill, Rhiwlas; Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Ann Carran, Bethesda, Iona Williams, Llanddulas; Barbara Jones, Jean Hughes, Talybont; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Doris Shaw, Bangor; Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Tregarth; John a Meirwen Hughes, Abergele; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno; Gwenda Roberts, Rhosmeirch.

Mae'r wobr a'r llongyfarchiadau y tro yma yn mynd i Gwenda Davies, Bodiwan, 21 Lôn y Wennol, Llanfairpwll, Ynys Môn LL61 5JX.

Atebion erbyn 1af Mawrth, 2019 ***fan bellaf*** i 'Croesair Chwefror', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

**Atebion erbyn 1af Mawrth i 'Croesair Chwefror'**
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

**Capel Carmel**
*Trefn Gwasanaethau ( am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)*
Chwefror 17: Miss Nerys Jackson.
Chwefror 24: Y Gweinidog.
Mawrth 3: Y Gweinidog (Cymun).
Mawrth 10: Parchg. John Lewis Jones.
Mawrth 17: Parchg. Dewi T. Morris.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30.
Te Bach. Dydd Llun, Chwefror 25. (2.30 – 4.00yp.)
Croeso cynnes i bawb..

Cofion at yr aelodau sy'n sâl gartref, a gwellhad buan i Mr. Emlyn Williams, Henbarc, wedi triniaeth yn yr ysbyty.

Ar ddydd Sul, 13 Ionawr, cafwyd oedfa arbennig ynglŷn ag Apel Madagascar. Yn cymryd rhan yr oedd Helen, Millie, Megan, Arfon, Gerallt, Deri a Joe, gyda Rhian Roberts yn cyfeilio. Diolch i Helen am drefnu'r oedfa. Mae Carmel wedi anfon £1,000 i'r Apêl yn barod!

*Clwb Dwylo Prysur*
Daeth Siân Owen atom ni i'r clwb ar nos Wener ym mis Ionawr i sôn am ei gwaith yn casglu lluniau o rai o'r llechi wedi'u haddurno sydd i'w cael yn yr ardal hon. Bu'r bobl ifanc yn rhwbio llechi i weld y patrymau hardd oedd arnyn nhw. I gloi gweithgareddau'r noson honno, mi gawson nhw lunio cardiau dydd Santes Dwynwen. Diolch i Siân am noson ddifyr a diddorol dros ben.



Cynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Plant a'r Bobl Ifanc ar fore Sul, y 3ydd o fis Mawrth am hanner awr wedi deg. Bydd cwpanaid a lluniaeth ysgafn i ddilyn yn yr ysgoldy. Croeso cynnes i bawb.

**Mrs Margaret Owen (Anti Margaret)**
Ar 11 Ionawr, yn ei chartref, bu farw Mrs Margaret Owen, Bron Bethel, yn 89 mlwydd oed – priod annwyl y diweddar Mr Arthur Owen, a mam hoff Gareth a Fiona. Er nad oedd Margaret yn aelod yng Ngharmel, 'roedd yn ffyddlon iawn i bob oedfa, ac yn aelod brwd o'r Dosbarth Gwau a'r Te Bach. Cofiwn hefyd am ei chyfraniad i sawl gweithgarwch arall yn yr ardal, ac yn ddiweddar ei chyfraniad i Glwb yr Henoed fel swyddog, a Phwyllgor Canolfan Rachub. Collwn ei gwên a'i chyfeillgarwch, ac anfonwn ein cydymdeimlad at Gareth a Brigitta a'r teulu, ac at Fiona ac Edward. Cynhaliwyd ei hangladd yng Ngharmel, ac yna yn yr Amlosgfa. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mrs Helen Wyn Williams wrth yr organ, a chafwyd teyrnged arbennig gan Fiona. Ar y Sul canlynol, cafwyd gair o goffhad gan lywydd y mis yng Ngharmel, sef Mrs Helen Wyn Williams.

**Diolch**
Ar ran y teulu, dymuna Fiona ac Edward ddatgan eu diolch cywiraf i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch i chi i gyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Margaret tuag at Ymchwil Canser a Hospis yn y cartref. Diolch i'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams am ei wasanaeth yn y Capel, yn yr Amlosgfa, ac ar ddiwrnod claddu'r llwch, ac i Mrs Helen Wyn Williams yr organyddes. Diolch arbennig i Stephen Jones am y trefniadau trylwyr ac urddasol.

**Croeso**
Croesawn ddau deulu newydd i Lwyn Bedw, sef Gareth a Gwenan Williams i rif 2, a Nia ac Iolo Roberts i rif 9, a'r plant wrth gwrs. Mae hyn yn cwblhau'r rhan isaf o'r ystad ond erys dau blot yr ochr arall i fynedfa Bron Arfon.

**Llety Lloerig**
Llongyfarchwn blant yr ardal a gymrodd ran yn y panto hwyliog "Llety Lloerig" yn Neuadd Ogwen ym mis Ionaw,r e.e. Gruffydd, Gwenno a Hanna o Lwyn Bedw. Edrychwn ymlaen at y perfformiad nesaf.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn â Jean a Godfrey Northam oherwydd marwolaeth eu brawd yng nghyfraith yn Llandre (Llanfihangel Genau'r Glyn) ger Aberystwyth tua diwedd mis Ionawr.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Gwydion Rhys, Bron Arfon, ar basio ei arholiad gradd 8 ar y piano gyda Rhagoriaeth.

# Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

'Roedd awyrgylch gynnes braf yn festri Carmel ar noson rewllyd iawn ddiwedd mis Ionawr, pan groesawyd Neville Hughes i'n plith i son am hynt a helynt 'Hogia Llandegai' yn eu dyddiau cynnar fel grŵp sgiffl. Roedd Neville wedi cofnodi'r cyfan mewn llyfryn bach [sydd yn ddarnau erbyn hyn!] o'r ymddangosiad cyntaf un, - yn Nhŷ'n Tŵr, Ebrill, 1957 pan gawsant ddeuddeg swllt am ganu, gyda'r rhan fwyaf o'r arian yn mynd i dalu am y bws, gan nad oedd neb yn berchen ar gar. Roedd tua wyth yn y grŵp i gyd, - yn defnyddio pob math o offerynnau fel cist de wedi'i haddasu, organ geg, llwyau, pren golchi a chrib a phapur! 'Roeddent yn addasu caneuon Americanaidd a Saesneg poblogaidd, gan roi geiriau Cymraeg bachog i'r alawon.

'Roedd Neville wedi dod â'i gitâr i'r cyfarfod, a chawsom glywed pytiau o ganeuon o amrywiol arddulliau e.e. 'Os ewch i Lan Môr Isa', 'Dewch ar y Tren Bach', 'Pres y Dôl', 'Triawd y Buarth', Defaid William Morgan' a pherfformiad anhygoel o 'Singing the Blues', - cân a achosodd i un o'i gymdogion wylltio'n gacwn am na allai gysgu, oherwydd fod Neville yn ymarfer bloeddio canu gyda'i gitâr yn oriau mân y bore!

Cawsom hanesion di-ri – rhai doniol tu hwnt, - yn enwedig am Now, a oedd yn gymeriad a hanner! Hanes Now yn dod ag oen llywaeth ar y llwyfan yng Nghaernarfon, ei hanes yn bwyta bisgedi cŵn, ei hoffter mawr o ganeuon a ffilmiau cowbois, a'i hiwmor a'r ymatebion annisgwyl yn ei berfformiadau mewn llu o sgetsus difyr!

Ond mae'n rhaid cofio bod y grŵp a ddatblygodd i fod yn 'Hogia Llandegai' wedi profi llwyddiant anhygoel! Ymddangosodd yr 'Hogia' ar nifer helaeth o raglenni teledu dros y blynyddoedd, cyhoeddwyd recordiau di-ri, a pherfformiwyd ymhell dros fil o weithiau mewn nosweithiau llawen ar hyd a lled Cymru. Rhan fach iawn o'r hanes a geir yma, ond diolch yn fawr, Neville, am yr holl ganu a chwerthin a gafwyd yn y Clwb Hanes ar noson oer o aeaf!

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid.
Nos Fercher, Chwefror 27
am 7 o'r gloch yn Festri Capel Carmel.
Bydd Dr. John Llywelyn Williams yn trafod 'Parc Archeolegol Rachub'
CROESO CYNNES!

# Llechi Cerfiedig – Trysorau Coll ein Dyffryn



Daeth arddangosfa 'Aelwyd' gan yr artist Sian Owen i ben yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen ar y 25ain o Ionawr. [Llun 1 – Sian Owen]Yn ystod cyfnod yr arddangosfa, cynhaliwyd dau weithdy celf a gweithdy trafod llechi cymunedol gyda phob digwyddiad wedi'i ysbrydoli gan lechi cerfiedig y Dyffryn. Bu'r digwyddiad trafod llechi yn llwyddiant ysgubol, gyda thrigolion lleol a phobl o gymunedau chwarelyddol eraill yn dod draw i rannu eu hanesion am eu llechi cerfiedig. Roedd yr eitemau a ddaeth i law yn cynnwys llechi ar ffurf hen ddroriau, cerfiad o ddeilen, cloc haul, cylchoedd consentrig a darnau o hen aelwydydd cerfiedig, a phob eitem â'i stori ei hun.

Mae cronfa helaeth o lechi cerfiedig yn Nyffryn Ogwen, gyda gwaith cofnodi wedi'i wneud ar hyd y blynyddoedd gan unigolion fel Gwenno Caffell, Jeremy Yates, Andre Lomozik ac eraill. Mae rhai enghreifftiau i'w gweld yn amgueddfa Storiel ym Mangor ac maent yn sicr yn rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol a hanesyddol yr ardal. Mae'r diddordeb yn arddangosfa 'Aelwyd' Sian Owen a'r digwyddiadau yn sicr yn dystiolaeth o'r diddordeb yn lleol a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu (ariannu, trefnu, creu!) yn ystod y deufis diwethaf. Ein bwriad yn awr yw adeiladu ar y seiliau hyn drwy gydweithio â chynllun Safle Treftadaeth y Byd Unesco i'r ardaloedd chwarelyddol.

Daeth yr arddangosfa gelf i ben gyda noson gloi arbennig yng nghwmni'r bardd Karen Owen a Jeremy Yates ddiwedd Ionawr. Hoffai Partneriaeth Ogwen ddiolch i Sian Owen am ei gwaith caled a'i brwdfrydedd yn ystod cyfnod yr arddangosfa. Bu'r arddangosfa hefyd yn gyfle i ddod

â bywyd newydd i ystafell gymunedol y Llyfrgell, ac edrychwn ymlaen yn awr i ddod â'r arddangosfa nesaf i'r llyfrgell, sef arddangosfa hanesyddol dros dro wedi'i churadu gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru.







**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**



**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Ionawr cynhaliwyd cyfarfod deufisol yr aelodau yng Nghanolfan Gymdeithasol Cefnfaes. Cafwyd yr adroddiadau arferol: e.e. bod Cymru'n gwario 11% yn fwy yn gymharol na Lloegr ar "Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol" a bod miliynau o bunnoedd wedi cael eu clustnodi ar gyfer dau brosiect mawr iawn yng Ngogledd Cymru (Cronfa Tyfiant a Chefnffyrdd);

bod Cyngor Gwynedd yn cyflwyno cyfundrefn newydd i dalu arian cinio gan fod dyled cinio'r ysgolion cynradd yn fwy nag unrhyw sir arall, a bod ymgynghoriad cyhoeddus ar strategaeth ariannol Cyngor Gwynedd yn digwydd; bod Cyngor Bethesda'n pryderu am fysiau Gerlan ac wedi trefnu bod y clwb ieuenctid yn parhau. Gwnaed trefniadau ar gyfer y bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar Fawrth y 9fed.

Yn ail hanner y cyfarfod, trafodwyd yr awgrym i gael 80 aelod yn Senedd Cymru yn lle'r 60 presennol i gael craffu mwy effeithiol am fod cymaint o'r aelodau yn Llywodraeth Cymru ac anfonwyd barn ar hyn at Blaid Lafur Etholaeth Arfon.

Yn ddiweddarach yn y mis, cynhaliwyd cyfarfod pob-aelod o Blaid Lafur Arfon yng Nghaernarfon, gyda nifer o aelodau o Ddyffryn Ogwen yn bresennol. Anfonwyd ymlaen farn y cyfarfod parthed Brexit a democratiaeth ym Mhlaid Lafur Cymru. Yna cafwyd cyflwyniad gan Gretel Leeb (cyn was sifil yng Nghynulliad Cymru) ar y ddeddf Cenhedlaethau'r Dyfodol – deddf sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ystyried cynaladwyedd ei fwriadau a'u heffaith ar eraill cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen yng Nghanolfan Cefnfaes am 7:30 y.h. ar yr ail Nos Fercher ym mis Mawrth (y 13eg), gyda phwnc trafod yn yr ail hanner.

# CHWILAIR

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | S | T | O | F | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H |
| X | J | U | **B** | **W** | **R** | **D** | **D** | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M |
| I | D | W | H | U | Z | C | Y | F | R | I | F | I | A | D | U | R | M | X | V |
| H | A | D | D | N | A | P | A | U | O | Q | U | S | O | F | R | P | Y | Q | Z |
| C | G | R | H | C | U | M | W | N | C | E | O | Y | R | I | A | S | Z | U | T |
| L | W | F | D | X | U | P | W | A | R | H | R | C | Q | H | W | E | H | O | Y |
| O | E | P | E | G | E | O | R | M | H | E | P | G | T | T | C | B | B | C | U |
| G | U | J | W | P | L | P | T | M | I | V | V | D | E | C | B | B | F | R | F |
| T | O | G | J | R | E | V | I | N | I | R | R | X | I | L | M | H | T | T | O |
| N | S | K | O | D | D | P | O | W | R | C | M | K | I | C | L | B | O | R | C |
| A | X | V | R | Y | H | D | S | T | M | R | E | R | F | Y | J | D | Z | H | B |
| I | C | W | O | S | O | C | R | A | I | X | T | N | I | L | X | J | J | M | B |
| R | W | T | E | R | X | M | D | X | K | S | F | U | P | C | Q | Y | O | I | L |
| I | F | E | C | R | Z | Q | R | O | E | C | T | D | G | W | S | L | Z | E | B |
| E | E | I | A | J | R | K | J | L | C | L | N | L | U | R | V | O | G | J | P |
| P | E | W | P | I | G | S | L | O | W | J | J | D | Q | Y | U | L | F | S | V |
| M | T | X | A | E | U | G | H | S | L | Z | E | E | L | A | F | X | I | W | T |
| Z | H | D | K | V | A | G | B | N | K | L | A | E | D | S | I | K | O | G | D |
| H | A | B | S | I | U | R | O | X | E | A | W | G | X | R | A | E | E | K | K |
| C | D | A | N | T | O | G | W | T | B | G | M | B | J | R | F | U | N | K | B |

## Deuddeg peth yn y cartref

Yn y chwilair mis yma mae DEUDDEG PETH YN Y CARTREF i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn CHWEFROR 26 . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Daeth atebion Myfanwy Jones, Gaerwen, a Mrs Gwen Davies, Tanysgrafell, ddiwrnod yn hwyr trwy'r blwch post y mis diwethaf, ac roeddwn wedi anfon y deunydd ymlaen i'r golygydd. Y mis yma mae angen i chwi ddarganfod pethau sydd yn cael eu defnyddio o gwmpas y cartref. Dyma atebion Ionawr :- Arthur Balfour; David Cameron; David Lloyd George; Edward Heath; Harold Wilson; John Major; Margaret Thatcher; Neville Chamberlain; Robert Peel; Stanley Baldwin; William Pitt; Winston Churchill. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Alwyn Rowlands, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Mair Williams, Mynydd Llandegai; Rosemary Williams, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor; Ifan Jones, Talybont; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Helen Wyn Jones, Erw Las; Mrs G. L. Jones, Windsor Berks; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Myfanwy Jones, Gaerwen; Arfon Thomas, Glasinfryn; Carys Parry, Glanogwen; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rhiannon Hughes, Llanfairfechan; John a Meirwen Hughes, Abergele; Gwenda Bowen, Gerlan; Shaun Osian Hughes, Bethesda; Alan Davies, Sir Fôn; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Marilyn Jones, Glanffrydlas. Enillydd Ionawr oedd:- Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon, LL54 7HN

# Egin Ogwen

**Tocio Coed Afalau**

Digon hawdd yw meddwl bod gan arddwyr amser hawdd yn y gaeaf, ac nad oes lawer i'w wneud hyd nes y bydd y pridd yn cynhesu a'r planhigion yn dechrau tyfu. Ond gyda choed afalau (a gellyg), mae'r misoedd o Ionawr i Fawrth yn amser pwysig! Rŵan yw'r amser i docio'r coed er mwyn rheoli eu siâp, gwella eu twf, cynyddu nifer eu ffrwythau, a thrin afiechydon.

Mae nifer o bethau i'w cofio wrth docio coed yn gywir, ac mae llawer ohonom yn cofio tocio coeden a synnu wedyn nad oedd ffrwythau yn tyfu am flwyddyn neu ddwy! Mae llawer o lyfrau a gwefannau yn cynghori ar docio coed, ond trefnwyd sesiwn tocio coed gan Egin Ogwen yn ystod mis Ionawr i ddysgu rhai elfennau o'r grefft gyda'n gilydd. Roedd hi'n ddiwrnod sych a heulog pan ddaeth nifer fach ohonom ynghyd yn Llys Dafydd. Wrth lwc, nid oes unrhyw arwydd o afiechyd yno, ac 'roeddem ni felly yn edrych ar siâp y coed, er mwyn deall sut y maent yn tyfu a lle 'rydym ni eisiau iddynt fynd o hyn ymlaen. Byddwn yn edrych eto yn yr haf a gweld os ydym wedi gwneud y peth iawn!

Os oes gennych chi goed afalau yn eich gardd, ac os hoffech chi help gyda'u tocio nhw, cysylltwch â Judith ar e-bost judith.rachub@gmail.com neu ffonio 01248 602672 / 07967 115508, a byddaf yn hapus i ddod draw.

**Gardd Fwyd Llys Dafydd**

Bydd mwy o sesiynau plannu Egin Ogwen yn cael eu trefnu ar gyfer y flwyddyn. Byddwn yn creu gwir Ardd Fwyd yn Llys Dafydd dros fisoedd y gwanwyn a'r haf, ac mae croeso i unrhyw un sy'n ffansïo tyfu hadau yn eu cegin neu blannu pethau allan i ymuno â ni. 'Does dim angen unrhyw sgiliau garddio! Byddwn yn dysgu wrth fynd ymlaen.

Edrychwch allan am bosteri neu hefyd ar dudalen gweplyfr (facebook) Egin Ogwen, neu cysylltwch os ydych am gael eich enw ar ein rhestr e-bost. Hefyd edrychwch allan am lysiau neu berlysiau sy'n barod i'w casglu. Byddwn yn rhoi labeli wrth ymyl y rhai sy'n iawn i'w cynaeafu!

Os oes gynnoch chi blanhigion bwyd sbâr, neu hadau i'w rhoi neu i'w ffeirio, bydd hyn yn ddechrau da i'n gerddi newydd!


**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)


## Ysgol Abercaseg

**Ymweliad Cwmni Fran Wen**

Daeth cwmni'r Fran Wen i'r ysgol i berfformio'r sioe ' Twrw Dan a Dicw' i holl blant blwyddyn 1 a 2. 'Roedd hi'n sioe am gyfeillgarwch a chwarae, lle 'roedd cyfle i'r disgyblion ddatblygu sgiliau ac ysbrydoli eu creadigrwydd. Braf oedd gweld pob plentyn wedi mwynhau y sioe. Diolch yn fawr iawn.

**Prynhawn Robin Risg**

Diolch o galon i bawb am eu syniadau arbennig ar gyfer ein prynhawn o fod fel Robin Risg a thrïo pethau newydd. Cafwyd prynhawn arbennig o 'GYMRYD RISG' drwy flasu ffrwythau ychydig yn fwy anghyffredin - ciwi, mafon, mango, melon, pomegranad, pinafal. Bu'r plant yn coginio 'Mooncakes' Tsieineaidd a dysgu sut i chwarae gemau bwrdd newydd. Da iawn PAWB am fod fel Robin Risg!

**Diwrnod Santes Dwynwen**

Braf oedd gweld y plant yn mwynhau dathlu diwrnod Santes Dwynwen, gan gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a gynlluniwyd gan Ddreigiau Caseg y Siarter Iaith. Cynigwyd nifer o weithgareddau hwyliog, megis creu cardiau ac addurniadau, yn ogystal â phwyso a mesur er mwyn creu toes halen i greu llwyau garu.

**Clwb Codio a Chlwb Digidol**

Hyfryd yw gweld cymaint o blant blwyddyn 1 a 2 yn aros i'r clybiau Codio a Digidol ar brynhawn Mercher. 'Rydym i gyd yn edrych ymlaen yn arw at y clwb olaf, pan gaiff y rhieni gyfle i'w addysgu gan y plant, ac i weld yr holl bethau diddorol y maen nhw wedi eu gwneud.

**Prynhawn agored**

Pleser oedd cael croesawu rhieni a'r plant fydd yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi. Cawsant flas ar weithgareddau'r dosbarth Meithrin a chyfle i gyfarfod â staff yr ysgol.

**Gwellhad**

Dymunwn wellhad buan i anti Marian yn dilyn ei llawdriniaeth. Mae pawb yn edrych ymlaen at gael cinio dydd Sul blasus ar ôl i chi ddychwelyd.

**Croeso**

Croeso mawr i Miss Burton a fydd yn dysgu yn nosbarth Ffrancon hyd tymor yr haf.




Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

# Chwaraeon

**RYGBI**
**ADRAN 1 Gogledd**

Digon tawel ydi pethau wedi bod yn ddiweddar rhwng y tywydd gwael a Dinbych yn methu codi tîm ar gyfer Ail Rownd Cwpan Gogledd Cymru ar Dôl Ddafydd.

Gorffennwyd y flwyddyn yn gryf adref yn erbyn Llangefni gyda buddugoliaeth o 34 pwynt yn erbyn 15. Sgoriwyd 6 chais i gyd - 2 i'r asgellwr Gwion Williams, un i'r canolwr Steff Owain, un yr un i'r ddau brop Jack Owens a Paul Thomas ac un i'r wythwr Arwyn Griffith. Ciciodd y maswr Gerwyn Thomas 2 drosiad.

Cafwyd gêm hynod o galed ym Mhwllheli ar ddechrau'r flwyddyn newydd. Colli o 24 pwynt i 3 oedd yr hanes ond nid doedd y sgôr yn adlewyrchu pa mor gystadleuol oedd chwaraewyr Bethesda. Cyflymder olwyr Pwllheli, ac ambell i adlam ffodus oedd y gwahaniaeth rhwng y ddau dîm.

Sgoriodd Bethesda 5 cais yn erbyn y Cofis ar Dôl Ddafydd ar ddiwedd mis Ionawr. Roedd y tîm cartref wedi sgorio 4 cais erbyn hanner amser - un yr un i Arwyn Griffith, Huw Williams, Gwion Williams ac Elis Jones.

Ychwanegodd Gethin Harper gais yn yr ail hanner i wneud y sgôr terfynol yn 34 pwynt i 7.

Bydd Caernarfon yn ymweld unwaith eto yn rownd gyn-derfynol Cwpan y Gogledd.

Bu raid gorhirio'r daith i'r Wyddgrug oherwydd bod eu cae nhw wedi rhewi'n galed. Mae hyn yn gadael 3 gêm i'w hail-drefnu ar ddiwedd y tymor.

**DATBLYGU**

Mae'r gwaith adnewyddu'r adeilad ar y caeau chwarae bron wedi dod i ben. Gobeithir agor yr adeilad yn swyddogol ar Fawrth yr ail, pan groesewir y noddwyr a'r cwmnïau sydd wedi rhoi cymorth i'r clwb mewn gwahanol ffyrdd.

Yn dilyn yr agoriad bydd Bethesda'n chwarae Nant Conwy mewn gêm gynghrair ac mae'r cefnogwyr ffyddlon yn edrych ymlaen am brynhawn difyr.

## Cyflwynwyr Teledu yn sefydlu prosiect busnes newydd ym myd lletygarwch rygbi

Mae dau o gyflwynwyr cyfarwydd S4C wedi penderfynu sefydlu cwmni lletygarwch cyffrous a fydd yn darparu digwyddiadau ar ddyddiadau rhyngwaldol.

Bydd cwmni Geraint Hardy ac Owain Gwynedd yn lansio ar y 23ain o Chwefror, 2019, pan fydd Cymru yn croesawu Lloegr i Gaerdydd ar gyfer y gêm gartref gyntaf ym Mhencampwriaeth 6 Gwlad Guinness 2019.

Cynigir dau ddiwrnod o letygarwch yng nghanol y brifddinas yn ystod y gêmau yn erbyn Lloegr ac Iwerddon, a bydd pob digwyddiad yn cynnwys sesiwn o gwestiwn ac ateb, dadansoddiad o'r gêm gan gyn-chwaraewyr rhyngwladol, ocsiwn gudd, cinio dau gwrs a bar preifat.

**Manylion:**

- Diwrnod o letygrawch Cymru v Lloegr (Mercure Hotel, Holland House Hotel) 23ain o Chwefror, gydag Ian Gough.
- Diwrnod o letygarwch Cymru v Iwerddon (Jury's Inn, Caerdydd) gydag Ian Evans a Richard Hibbard
- Prisiau - Tocynnau Unigol £105 + TAW; Bwrdd o 10 £1,050 + TAW
- Ian Gough - 64 cap i Gymru
- Ian Evans - 33 cap i Gymru yn ogystal â theithio gyda'r Llewod i Awstralia yn 2013
- Richard Hibbard - 38 cap i Gymru, 3 chap i'r Llewod

Mae'r tocynnau yn gwerthu'n gyflym, felly i gofrestru eich diddordeb, neu am fwy o wybodaeth ewch i'r wefan: wefanwww.218events.co.uk

## Marchnad Ogwen

'Roedd Marchnad Ionawr yn rhyfeddol o brysur! Diolch i bawb a ddaeth i Neuadd Ogwen i'n cefnogi. 'Roedd hanes Gwenno a'i chynnyrch diglwten ar y rhaglen 'Heno' ar S4C yn sicr wedi denu cwsmeriaid - ond yn anffodus, 'roedd Gwenno adre'n sâl. Mae'n siwr hefyd bod si yn mynd o gwmpas am y cypcês hyfryd sydd ar gael yn y Farchnad gan Lois!

Choeliwch chi byth! Marchnad Ogwen yn cael ei henwi ar 'Heno' eto! Croeso mawr i Iestyn ac Emyr a'u stondin 'Ogla'. Mae'r ddau yn cynhyrchu canhwyllau gyda gwahanol arogleuon. Gwelwyd y ddau yn gwneud cannwyll ar y rhaglen ar ddydd Santes Dwynwen. Byddant efo ni ym Marchnad Ogwen o hyn ymlaen.

Yn anffodus, mae'r stondin Dyfal Donc wedi rhoi'r gorau i ddod i'r Farchnad. Diolch yn fawr i Becky a Morgan am eu cefnogaeth a phob dymuniad da i chi a Dyfal Donc at y dyfodol.

Pan mae ein stondinau parhaol ni i gyd yn bresennol, 'does dim lle i unrhyw un arall yn y Neuadd. Ond o bryd i'w gilydd, bydd un neu ddwy o'n stondinau yn methu mynychu'r Farchnad. Mae gennym restr o stondinau 'wrth gefn' sy'n fodlon dod i lenwi'r bwlch pan fo lle – adnodd hwylus, sydd yn cynnig cyfle i stondinau newydd ddangos eu nwyddau, a hefyd, yn rhoi amrywiaeth o stondinau i ni fel Marchnad. Felly, byddwch yn cael gweld wynebau newydd a nwyddau gwahanol o bryd i'w gilydd. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod ar y rhestr 'wrth gefn', cysylltwch â'r Ysgrifennydd. Ni chaniateir gwerthu bwyd na nwyddau sydd eisoes ar werth yn y Farchnad.

Sara Jones sy'n cynnal y Stondin Elusen ym mis Mawrth. Mae hi yn casglu arian tuag at y salwch Myasthenia Gravis. Yr unig fis sy'n rhydd yn 2019 yw Awst.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar 'Facebook'.

Croeso cynnes.